
S4C

# S4C:
# GWTHIO'R FFINIAU

## GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRAEG AR BOB LLWYFAN



SAESNEG
ENGLISH

## CYNNWYS


04—
CYFLWYNIAD

05—
BLAENORIAETHAU I'W TRAFOD

06—11
CRYNODEB GWEITHREDOL

12—19
PENNOD 1: S4C HEDDIW

20—45
PENNOD 2: S4C YFORY - EIN GWELEDIGAETH

46—49
PENNOD 3: GWIREDDU'R WELEDIGAETH

50—51
PENNOD 4: ATEBOLRWYDD, LLYWODRAETHU A RHEOLEIDDIO S4C

52—
GAIR I GLOI

# CYFLWYNIAD

Yn dilyn cyfnod hir o alw a dyheu ar ran pobl yng Nghymru, crëwyd S4C yn 1982 gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol fel y bedwaredd sianel deledu Brydeinig yng Nghymru. Roedd siaradwyr Cymraeg wedi teimlo ers talwm nad oedd y cyfryngau Prydeinig yn eu gwasanaethu'n ddigonol, ac roedd creu S4C, gyda swyddogaeth gwasanaeth cyhoeddus glir ac unigryw ar gyfer darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cyflawn, yn mynd yn bell i wynebu'r pryderon a chyfarfod â'r gofyn.

Fyddai S4C ddim yn bodoli oni bai am leisiau'r siaradwyr Cymraeg, ac ers 1982 rydym wedi gwrando'n gyson ar ein cynulleidfa, gan weithio'n ddibaid i gyfarfod â'u disgwyliadau, i ddarparu ystod eang o gynnwys yn yr iaith Gymraeg ac i fod yn berthnasol i'w bywydau – y cyfan o fewn terfynau ein cylch gorchwyl gwreiddiol, toriadau ariannol o bryd i'w gilydd ac ansicrwydd ariannol.

Nid ydym wedi gwneud hyn ar ein pennau'n hunain. Mae'r BBC, ITV Cymru a'r sector gynhyrchu annibynnol yng Nghymru oll wedi bod yn bartneriaid allweddol yn y fenter hon. Eu creadigrwydd a'u talent nhw, gyda'i gilydd, sydd wedi bod yn gyfrifol am gynhyrchu'r ystod eang o raglenni a'r amrywiaeth lleisiau sy'n diffinio'r gwasanaeth.

Ers 2013, mae ein perthynas newydd gyda'r BBC, sy'n seiliedig ar amcanion gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyffredin i'r ddau ddarlledwr, wedi creu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio creadigol, wedi'n galluogi i roi cynnwys S4C ar y BBC iPlayer, ac wedi sicrhau mynediad i ffynhonhell ariannol allweddol.

Digwyddodd yr adolygiad allanol diwethaf o S4C yn 2004. Mae hi'n hen bryd felly i gynnal asesiad eang o'i phwrpasau a'i hanghenion ac mae hyn i'w groesawu'n fawr. **Mae'r ddogfen hon yn gosod allan weledigaeth S4C am y ddeng mlynedd nesaf ac fe fydd yn elfen allweddol o'n mewnbwn i'r adolygiad annibynnol.**

Yr iaith Gymraeg yw iaith gysefin hynaf Prydain. Yn hynny o beth, mae iddi arwyddocâd diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol pwysig ac rydym yn falch o'r rhan ganolog rydym wedi'i chwarae yn y gwaith o ganiatáu iddi ffynnu. Am dros 30 mlynedd, rydym wedi darparu cyfleoedd cyson i bobl glywed a dysgu Cymraeg ac i dderbyn gwybodaeth ac adloniant yn Gymraeg. O ganlyniad, heddiw, mae'r Gymraeg yn dal i fod yn iaith bob dydd fyw a byrlymus ym mywyd cyfoes cymdeithasol a masnachol Cymru. Heddiw siaradwyr Cymraeg yw mwyafrif ein cynulleidfa graidd o hyd: siaradwyr rhugl a rhai llai rhugl, yn byw yng Nghymru, mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd tramor hefyd.

Mae ein buddsoddiad mewn creu cynnwys wedi dod â sector gynhyrchu annibynnol ffyniannus i fodolaeth, sy'n cynnal swyddi a thwf economaidd ar draws y wlad.

Mae parhâd cefnogaeth llywodraeth y DU i S4C, a'r gefnogaeth drawsbleidiol y mae'r sianel yn ei mwynhau yn medru caniatáu i siaradwyr Cymraeg deimlo fod eu hanghenion yn cael eu cyfarfod yn y Brydain gyfoes.

Ond, 35 mlynedd ymlaen o adeg ein lawnsio fel gwasanaeth darlledu cyhoeddus, mae'r byd rydym yn gweithredu o fewn iddo wedi newid tu hwnt i bob adnabyddiaeth. Mae teledu yn ei ddull lliniol traddodiadol yn dal i fod yn sylfaenol bwysig, ond mae amrywiaeth y dulliau y mae pobl yn eu defnyddio heddiw i fwynhau cynnwys, yn ei holl ffurfiau ac ar draws yr holl ddyfeisiadau sy'n bodoli yn ein byd cysylltiedig, yn golygu bod yn rhaid i ddarlledwr anelu at fod ar gael ym mhobman. **Er mwyn cystadlu heddiw, rhaid i ni gynnig gwahanol fathau o gynnwys a all gael eu gweld pryd bynnag ac ymhle bynnag y mae'r gynulleidfa yn dymuno ei weld ac ym mha ddull bynnag ac ar ba ddyfeisiadau bynnag, y maen nhw'n dewis gwneud hynny.** Mae cynulleidfaoedd byd cyfoes y cyfryngau yn disgwyl hyn fel amod sylfaenol ac mae ein cylch gorchwyl presennol yn ein cyfyngu ni rhag ei ddarparu.

Nid yw ein cynulleidfa heddiw - ac ni fydd cynulleidfa yfory yn sicr– yr un â chynulleidfa deledu yr 1980au. Mae'n llai unffurf ac mae'n agored i atyniadau cannoedd o sianelau teledu ac arlein gwahanol. Mae ganddi well dealltwriaeth o natur cynnwys, mae'n ymwneud yn gyson â'r dechnoleg ddiweddaraf ac mae wedi dod i ddisgwyl mwy.

Mae gan S4C ymrwymiad angerddol i fod yn ddarparwr creadigol, cystadleuol, gydag ymwybyddiaeth fasnachol, o gynnwys Cymraeg deniadol, amrywiol, adloniadol, llawn gwybodaeth, am ddegawdau i ddod. Mae gennym weledigaeth glir, ymarferol ar gyfer y dyfodol, sy'n cael ei gyrru gan anghenion cynulleidfa amrywiol ac sydd â mathau newydd o gynnwys a systemau dosbarthu cynnwys wrth ei chalon. Ond rydym yn credu y bydd y newidiadau mawr sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth yma, yn ogystal ag i greu perthynas ddwy ffordd agosach gyda chynulleidfaoedd heddiw ac yfory, yn gofyn am ddarlun tymor hir eglur o'n cyllido a'n hatebolrwydd ac adolygiad hir-ddisgwyliedig o'n cylch gorchwyl. **Rydym am esblygu o fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus ugeinfed ganrif traddodiadol i fod yn ddarparwr cynnwys cyfryngau cyhoeddus ym myd cysylltiedig yr unfed ganrif ar hugain.**

**Huw Jones**
**Cadeirydd**

**Ian Jones**
**Prif Weithredwr**



# BLAENORIAETHAU I'W TRAFOD:

**Mae angen uwchraddio cylch gorchwyl S4C**, gan symud oddi wrth y cyfyngiadau daearyddol a theledu yn unig i alluogi darpariaeth Gymraeg aml-lwyfan ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

Mae angen i gylch gorchwyl newydd S4C ganiatáu ar gyfer **pwerau masnachol ehangach** er mwyn ysgogi refeniw ychwanegol i helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Mae angen i S4C esblygu i fod yn **ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus** – gan gomisiynu a darparu cynnwys Cymraeg ar yr holl lwyfannau a ddewisir gan bobl, boed hynny'n deledu llinol, gwasanaethau dal i fyny, llwyfannau ffurf-fer a chymdeithasol, neu unrhyw ffordd arall boblogaidd o gyrchu cynnwys clyweledol.

Fel yr unig wasanaeth teledu Cymraeg, mae angen i frand a gwasanaethau S4C gynnal **amlygrwydd** mewn byd aml-lwyfan.

Mae'n rhaid **cynnal lluosogrwydd y ddarpariaeth** yn sector y cyfryngau yng Nghymru – ar yr un pryd â chryfhau hyn ar gyfer y rhai sy'n cyrchu cynnwys ar lwyfannau digidol.

**Bydd yr angen am fuddsoddiad dros y blynyddoedd i ddod yn fwy**, er mwyn cynnal gwerth termau real y gwariant ar gynnwys ac i roi cyllid digonol i'r weledigaeth ar gyfer creu a darparu'r cynnwys a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae angen **proses adolygu ariannol agored a thryloyw** i benderfynu pa gyllid sy'n ddigonol ar gyfer S4C nawr ac yn y tymor hwy.

Dylid caniatáu **cyllid digonol a sefydlog** i S4C dros gyfnod penodol a sylweddol – yn unol ag egwyddorion cyffredin a dderbynnir yn eang ar gyfer cyllido cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

**Mae angen diogelu lluosogrwydd cyllid** – mae hyn wedi bod yn hollbwysig i annibyniaeth barhaus S4C ac i'n gallu i gyflawni ein cylch gorchwyl iaith Gymraeg.

O ystyried amgylchedd newidiol y cyfryngau (teledu) a gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol, dyma'r adeg briodol i **adolygu anghenion llywodraethu S4C**.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

**Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth S4C ar gyfer y deng mlynedd nesaf, ac fe fydd yn elfen allweddol o'n cyflwyniad i'r adolygiad annibynnol o gylch gorchwyl, cyllido ac atebolrwydd y sianel.**

**Yn y crynodeb gweithredol hwn, nodwn y pwyntiau allweddol a amlinellwyd yn y ddogfen, pennod wrth bennod.**

## Pennod 1: S4C Heddiw


**Yn y bennod gyntaf, rhown amlinelliad o S4C fel ag y mae heddiw. Ystyriwn y cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo, sut mae hwn wedi datblygu yn y 35 mlynedd ers i'r sianel gael ei chreu, a beth mae hyn yn ei olygu i S4C yfory.**

### S4C Heddiw

- Mae S4C yn darlledu dros 115 o oriau o raglenni bob wythnos, gan gynnwys gwasanaeth i blant, drama, newyddion, adloniant, chwaraeon, rhaglenni ffeithiol, cerddoriaeth a digwyddiadau.
- Mae ein cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd yn y Gymru fodern a bywyd y gynulleidfa Gymraeg ei hiaith.
- Mae S4C yn comisiynu'r mwyafrif helaeth o'n cynnwys Cymraeg gan ystod eang o gwmnïau cynhyrchu annibynnol, medrus (tua 50 y flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf), sy'n gweithio ledled Cymru.
- Mae'r BBC hefyd yn darparu isafswm o ddeg awr yr wythnos o raglenni o'i chyllideb ei hun i'r gwasanaeth.
- Ar ôl eu darlledu, mae modd gwylio rhaglenni S4C drwy'n gwasanaeth ar-lein neu ar y BBC iPlayer – o ganlyniad i'r bartneriaeth strategol ehangach gyda'r BBC.
- Mae effaith economaidd y cyllid cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector cynhyrchu a'r diwydiannau creadigol yn sylweddol – mae bob £1 a fuddsoddwyd gan S4C yn yr economi yng Nghymru a'r DU yn creu cyfanswm gwerth o £2.09.
- Gweithredwn yn ddarbodus, a chynhaliwn orbenion y sefydliad ar ryw 4%, ac mae cost cynnwys fesul awr wedi lleihau o draean er 2009.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi cynyddu dros 10% ers i S4C gael ei lansio ym 1982. Mae'r iaith yn ffynnu heddiw, ac fe'i defnyddir gan bron i dri chwarter miliwn o bobl yng Nghymru a'r DU i wahanol raddau yn eu bywydau – gartref, yn yr ysgol, yn y gwaith ac amser hamdden.
- Yn 2015/16, cyflawnom ein ffigurau gwylio teledu wythnosol uchaf yn y DU mewn naw mlynedd (629,000). Ar draws y flwyddyn, fe wnaeth 9.9m o bobl wylio cynnwys S4C ledled y DU (i fyny o 8.4m yn 2014/15).

### Mae'r byd yn newid

- Pan lansiwyd S4C ym 1982, dim ond pedair sianel deledu oedd i gael. Heddiw, mae cannoedd o sianeli – gan gynyddu'r dewis a chynyddu'r gystadleuaeth.
- Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd anferthol mewn llwyfannau ar-lein gyda chynulleidfaoedd yn mudo iddynt o sianeli teledu traddodiadol.
- Mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (DGCau) eraill wedi gallu lansio sianeli i dargedu cynulleidfaoedd sy'n mudo.
- Yn y dyfodol, mae'n rhaid i S4C sicrhau bod cynnwys Cymraeg ar gael ar gymaint o lwyfannau â phosibl.
- Mae cylch gorchwyl S4C yn hen ffasiwn – fe'i crëwyd yn unol ag arferion defnyddio'r cyfryngau o'r gorffennol. Nid yw'n ein galluogi ni i gomisiynu ar gyfer cynulleidfaoedd digidol yn benodol.





## Pennod 2: S4C Yfory – Ein Gweledigaeth

**Mae'r bennod hon yn esbonio'n fanwl ein gweledigaeth ar gyfer S4C newydd sy'n apelgar ac yn datblygu'n gyson o ran y cynnwys a gomisiynwn a'r modd y mae pobl yn defnyddio'r cynnwys hwnnw. Amlinellwn y camau y byddwn yn eu cymryd i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus modern a chynhwysfawr i gynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd.**

**Mae ein gweledigaeth wedi'i seilio ar bedair elfen allweddol:**

i. **Darparu Cynnwys ar bob Llwyfan**: Sicrhau y gall y gynulleidfa ddefnyddio cynnwys S4C pryd, ble a sut bynnag y dymunant.

ii. **Creu'r Cynnwys Cywir**: Ei wneud yn fwy perthnasol, cystadleuol ac amrywiol.

iii. **Gwerth Ehangach fel Gwasanaeth Cyhoeddus**: Sicrhau buddion economaidd, ieithyddol ac addysgol o'n gwaith.

iv. **Strategaeth Fasnachol i Helpu Gyrru'r Weledigaeth**: Gwella ein galluoedd a'n henw da masnachol.

### Darparu Cynnwys ar bob Llwyfan

Mae'n rhaid i S4C ddod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC) Cymraeg ar yr holl lwyfannau poblogaidd – darlledu, Teledu Clyfar, y cyfryngau cymdeithasol, safleoedd fideo ffurf-fer, safleoedd ffurf-hir ar-lein, ac ati. Rhaid i ni wneud hyn ar yr un pryd â pharhau i fuddsoddi yn ein presenoldeb ar brif lwyfannau darlledu teledu.

Bydd S4C yn:

- datblygu un cartref digidol hwylus sy'n galluogi ein cynulleidfa i ddefnyddio holl gynnwys S4C mewn un lle, gan gynnwys cynnwys o'r archif lle gellir sicrhau'r hawliau perthnasol;
- cynnig gwasanaeth personoledig i aelodau'r gynulleidfa – cynnwys sy'n bodloni anghenion unigol a'r gallu i guradu'n unol â hynny ar lwyfannau perthnasol;
- sicrhau bod brand a chynnwys S4C mor amlwg ac ar gael mor rhwydd â darparwyr DGC eraill ar Deledu Clyfar, ffrydwyr y cyfryngau a darparwyr ar alw eraill;
- datblygu ac yn manteisio ar lwyfannau priodol ar gyfer darparu cynnwys digidol i dargedu grwpiau oedran gwahanol, a'u poblogi'n rheolaidd gyda chynnwys ffurf-fer newydd, apelgar.

### Creu'r Cynnwys Cywir

Bydd S4C yn adfywio'r sianel linol – gan gyflwyno sianel linol fwy cyffrous, fwy beiddgar, a mwy amrywiol a fydd yn chwarae rhan amlycach ym mywydau ein cynulleidfa – gan ddefnyddio technoleg i alluogi gwylwyr i ryngweithio mwy. I wneud hyn, mae angen i S4C allu cystadlu gyda darlledwyr eraill sy'n cynnig tariffau uwch ar hyn o bryd, tra bod cyllideb cynnwys S4C yn lleihau oherwydd gostyngiadau mewn cyllid a phwysau chwyddiant. Disgwylir i werth cyllideb cynnwys presennol S4C ostwng yn raddol mewn termau real dros bum mlynedd - £1.6m yn is y flwyddyn nesaf, £8.7m yn is erbyn 2021/22.

Bydd S4C yn:

- creu mwy o gyfleoedd gwylio i'r teulu eu mwynhau fel grŵp – gan gadarnhau rôl y sianel deledu fel cartref gwylio teuluol yn Gymraeg;
- creu digwyddiadau proffil uchel arwyddocaol – uchafbwyntiau yn yr amserlenni sy'n tynnu pobl ynghyd ac yn ysgogi pobl i siarad yn eu cymunedau ac ar y cyfryngau cymdeithasol;
- creu dau brif fath o gynnwys ffurf-fer – cynnwys gwreiddiol, annibynnol sy'n ysgogi rhyngweithio rhwng cynulleidfaoedd newydd sbon ar draws llwyfannau nad ydynt yn llinol; a chynnwys sy'n hyrwyddo ac yn ehangu diddordeb mewn rhaglenni presennol ac yn eu hategu;
- newid ein dull o gomisiynu er mwyn cwmpasu cynnwys ar bob ffurf;
- gwella cyfathrebu gyda chynhyrchwyr ac yn meithrin dealltwriaeth glir o'n disgwyliadau creadigol cynyddol.



### Gwerth Ehangach S4C fel Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae cynnwys gwasanaeth cyhoeddus S4C yn cael ei werthfawrogi a'i barchu'n eang gan ein cynulleidfa. Ond fel yr unig ddarlledwr a darparwr cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg, gwnawn gyfraniad sylweddol ac ehangach o ran gwasanaeth cyhoeddus i Gymru a'r Gymraeg. Byddwn yn gweithio'n galed i gynyddu'n heffaith dros y deng mlynedd nesaf.

Bydd S4C yn:

- cefnogi'r Gymraeg i hawlio ei lle yn y byd digidol trwy gomisiynu ystod o gynnwys digidol a sicrhau ei fod ar gael;
- rhoi mwy o ffocws ar hyrwyddo amrywiaeth, cynwysoldeb a symudedd cymdeithasol drwy ein cynnwys a'n comisiynu;
- cynnig mwy o gynnwys sy'n darparu ac yn atgyfnerthu profiadau addysgol i bob oedran;
- gwneud mwy i annog trosglwyddiad iaith;
- gwneud mwy i helpu datblygu sgiliau'r cyfryngau – gan gynnwys y rheiny sy'n bwydo i'r sector cynhyrchu yng Nghymru;
- cynyddu buddsoddiad yn y diwydiannau digidol a chreadigol yn unol â chyllidebau.

### Strategaeth Fasnachol i Helpu Gyrru'r Weledigaeth

Nod cangen Fasnachol S4C yw creu difidendau cynaliadwy i wasanaeth cyhoeddus S4C. Ein nod dros y pum mlynedd nesaf yw adeiladu ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd, a darparu hyd yn oed mwy o werth i'r gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd S4C Masnachol yn:

- cymryd brandiau ar yr awyr ac yn ymchwilio i ffyrdd o gael mwy o werth ohonynt – gan wneud mwy i ddatblygu ar gynlluniau sydd eisoes ar y gweill;
- creu mwy o gydgynyrchiadau drama mawr, beiddgar a fformatau i'w datblygu'n rhyngwladol – gan adeiladu ar brosiectau presennol;
- datblygu partneriaethau newydd i gynhyrchu mathau newydd o gynnwys ar gyfer holl lwyfannau S4C;
- Yn gwneud buddsoddiadau busnes sy'n helpu gwireddu'r weledigaeth a chreu enillion ariannol i'r gwasanaeth.

## Pennod 3: Gwireddu'r Weledigaeth

**Yn y bennod hon, rydym yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol y credwn y dylai'r adolygiad o S4C eu hystyried. Bydd y rhain yn ein galluogi i wireddu'r weledigaeth a amlinellwyd ym Mhennod 2 a bodloni disgwyliadau'r boblogaeth Gymraeg.**

### Cylch gorchwyl newydd

Mae angen cylch gorchwyl hyblyg, wedi'i ddiweddaru i'n galluogi i wireddu ein gweledigaeth. Byddai hyn yn gweld S4C yn datblygu yn ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus – yn ymgorffori'r cylch gorchwyl teledu presennol a'r gallu i greu a darparu cynnwys ar lwyfannau eraill a chydnabod ein rôl yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU.

Dylai'r cylch gorchwyl newydd alluogi'r sianel i ddarparu:

(i) cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus o safon uchel yn y Gymraeg;
(ii) ar y teledu a llwyfannau digidol;
(iii) i'r gynulleidfa yng Nghymru, ledled y DU a thu hwnt.

### Buddsoddiad ariannol

### Cyllid sefydlog a digonol

I wireddu ein gweledigaeth, mae cyllid sefydlog a digonol yn hanfodol.

O dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae dyletswydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried faint o gyllid sydd ei angen ar S4C ac i wneud trefniadau i sicrhau bod y swm hwn o arian yn cael ei ddarparu i S4C bob blwyddyn – naill ai o arian y Llywodraeth, neu drwy wneud trefniadau gyda chyrff eraill.

Ar hyn o bryd, mae incwm o ychydig dros £83m gan S4C. I gyflawni a chynnal y lefelau gwasanaeth newydd a ddisgrifiwyd gennym, mae angen buddsoddiad ychwanegol bob blwyddyn ar ben ein cyllideb bresennol.

### Beth yw cyllid digonol?

**(a) Gwireddu darpariaeth cynnwys ar bob llwyfan:**
Ein nod yw cyflwyno elfen lwyfan ac elfen ddigidol "Darpariaeth Cynnwys ar Bob Llwyfan" dros gyfnod o bum mlynedd. Mae gwneud hyn heb effeithio ar lefelau buddsoddi mewn cynnwys presennol yn mynnu:

- buddsoddiad blynyddol ychwanegol o £6m y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi S4C i gyflwyno ei wasanaeth ar deledu yn ogystal â llwyfannau digidol, i fuddsoddi mewn cynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd ar lwyfannau digidol, ac i ymgorffori cynnwys archif yn y cynnig ar-lein.

**(b) Cost creu'r cynnwys cywir**
Nid oes ateb cwbl bendant i'r cwestiwn "faint o gyllid sydd ei angen ar S4C i greu'r cynnwys cywir?" Gwaith y darlledwr yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl y gellir ei gyflwyno gyda'r arian sydd ar gael.

Fodd bynnag, nid yw cyllideb cynnwys bresennol S4C yn ddigonol i wireddu'r weledigaeth a amlinellir ym Mhennod 2 y ddogfen hon, ac felly mae angen cyllid ychwanegol os ydym am ei chyflawni.

Mae S4C wedi amlinellu'r ffactorau yr ystyriwn eu bod yn briodol ac yn berthnasol i'r adolygiad annibynnol eu hystyried wrth geisio ateb y cwestiwn beth yw cyllid digonol. Sef:

- meincnodau a osodir gan ddarlledwyr eraill, a'r modd y newidiant dros amser;
- y ffaith mai S4C yw'r unig sianel deledu Gymraeg;
- lefelau ailddarlledu S4C, sydd i fyny i 58% ar hyn o bryd;
- cost S4C fesul awr ar draws pob genre o gymharu â gallu DGCau eraill i fuddsoddi;
- yr angen i warchod cyllideb S4C yn erbyn pwysau chwyddiant;
- yr effaith gadarnhaol debygol a geir o gynnydd sylweddol mewn buddsoddiad ar y gwasanaeth.

**(c) Proses dryloyw ar gyfer y dyfodol**
Nid yw Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn cyfeirio at unrhyw broses y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ei dilyn wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r swm sydd ei angen i ariannu S4C. Mae'r gwendid hwn wedi gwneud S4C yn agored i doriadau o bryd i'w gilydd, ac wedi peri i ofnau gael eu mynegi ynglŷn â pharhad ymrwymiad y Llywodraeth.

Dylai fod yn flaenoriaeth i'r adolygiad argymell proses wrthrychol a thryloyw ar gyfer penderfynu ar beth yw cyllid digonol ar gyfer S4C, ar sail cylch gorchwyl newydd.

Mae S4C yn argymell bod yr egwyddorion cyllido a gynigiwyd gan yr Undeb Ddarlledu Ewropeaidd yn cael eu mabwysiadu mewn perthynas ag S4C, sef:

- sefydlog a digonol
- annibynnol o ymyrraeth wleidyddol
- teg a gellir ei gyfiawnhau
- tryloyw ac atebol.

Dylai'r broses ar gyfer diffinio anghenion cyllido cyffredinol S4C gynnwys ystyriaeth o'r ffactorau canlynol hefyd:

1. Disgwyliadau'r gynulleidfa
2. Argaeledd cynnwys Cymraeg ar lwyfannau'r cyfryngau
3. Costau cymharol creu cynnwys a chaffael hawliau
4. Effeithlonrwydd S4C ei hun
5. Egwyddor o berthynas gyfatebol gyda ffi'r drwydded
6. Chwyddiant a phwysau costau eraill

### Ffynonellau Cymorth Priodol

Dylai newid mewn cylch gorchwyl i ddod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (yn cynnwys ein statws DGC presennol) annog y rheiny sy'n gysylltiedig â'r adolygiad i edrych yn fwy eang ynglŷn ag o ble y gallai'r buddsoddiad ychwanegol hwn ddod.

Rydym yn awyddus i gael y cyfle i godi mwy o arian o'n gweithgareddau ein hunain, ond asgwrn cefn ein gwasanaeth cyhoeddus fydd cyllid o ffynhonnell gyhoeddus.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y cyfraniad o ffi'r drwydded tuag at gyllid S4C yn gweithio'n dda – gan gydweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC i sefydlu prosesau cadarn ac atebolrwydd priodol. Bydd S4C yn parhau i gael mynediad effeithiol i'r ffynhonnell gyllid bwysig hon, a chynnal ein hannibyniaeth ar yr un pryd.

Gyda chyllid ffi'r drwydded yn cael ei sianelu drwy'r BBC, mae cynnal cyswllt ariannu gyda Llywodraeth y DU, drwy'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wedi bod yn hanfodol i ni barhau i fod yn annibynnol ac i'n galluogi i gyflawni ein cylch gorchwyl Cymraeg.

Mae cael amryw ffynonellau cyllid yn parhau'n fuddiol ac yn egwyddor i'w diogelu i'r dyfodol. Rhaid i unrhyw opsiynau ariannu yn y dyfodol gynnal statws S4C fel darparwr cynnwys annibynnol, diduedd, y gellir ymddiried ynddo.

## Pennod 4: Atebolrwydd, Llywodraethu a Rheoleiddio

**Yn y bennod hon, nid ydym yn rhoi barn gorfforaethol bendant gerbron ynghylch y strwythurau atebolrwydd, llywodraethu a rheoleiddio gorau ar gyfer y dyfodol. Yn hytrach, rydym yn rhestru'r elfennau y credwn eu bod yn hollbwysig i gefnogi uchelgais S4C ar gyfer y dyfodol, a'i rôl ym mywydau pobl Cymru, y DU a ledled y byd.**

Mae S4C yn awgrymu bod yr elfennau hyn fel a ganlyn:

- Bod S4C yn bodoli fel **sefydliad annibynnol** i ddarparu gwasanaethau teledu a'r cyfryngau yn y Gymraeg a chydweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y diwydiant cynnwys.
- Dylai S4C gael **cylch gorchwyl diwygiedig**, a ddylai gynnwys y ddyletswydd benodol o ddarparu teledu a gwasanaethau cyfryngau Cymraeg i'r gynulleidfa ledled y DU, ac yn darparu'r gallu i ni addasu a datblygu ein gwasanaethau wrth i dechnoleg ac anghenion defnyddwyr ddatblygu.
- Bod S4C yn cael ei ariannu **drwy gyllid cyhoeddus** yn bennaf ond gall ymgymryd â **gweithgareddau masnachol** drwy is-gwmnïau na allant, fodd bynnag, ddefnyddio cyllid cyhoeddus.
- Bod S4C yn gallu arfer ei bwerau i **fenthyg cyllid at ddibenion penodedig** o fewn terfynau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Changhellor y Trysorlys.
- Bod y **prosesau** a ddefnyddir gan S4C i gyfrif am ei ddefnydd o gyllid cyhoeddus ac am gyflawni ei gylch gorchwyl yn briodol a chlir.
- Bod y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth yw **cyllid digonol** i S4C gyflawni ei gylch gorchwyl yn briodol a chlir.
- Bod atebolrwydd i **Ofcom** ar gyfer y rhan fwyaf o faterion rheoleiddio (ac eithrio ar gyfer rhai pynciau penodol, megis canllawiau a pholisïau iaith) yn cael ei gadarnhau.
- Dylai aelodau **anweithredol**, sy'n cyflawni ystod eang o feini prawf yn ymwneud â'r cylch gorchwyl newydd, gynrychioli mwyafrif clir y corff llywodraethol neu Fwrdd.
- Dylid **penodi'r** aelodau anweithredol drwy broses penodiadau cyhoeddus dryloyw.
- Dylai'r **Prif Weithredwr** gael ei benodi gan aelodau anweithredol y Bwrdd.
- Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am sicrhau trefniadau **llywodraethu corfforaethol** priodol, o ansawdd uchel, yn unol ag arfer gorau'r DU.
- Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am weithredu proses briodol ar gyfer **gwerthuso ac adrodd** ar berfformiad gwasanaethau wedi'i fesur yn erbyn amcanion.



## Gair i Gloi

Yn S4C: Gwthio'r Ffiniau, rydym wedi amlinellu gweledigaeth gyrraeddadwy ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, mae angen y canlynol ar S4C:

- cytundeb ei bod yn iawn i S4C fod eisiau bod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Gymraeg ac nid yn ddarlledwr yn unig;
- cydnabyddiaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu, a'r buddion all ddeillio o hynny;
- proses ar gyfer diffinio'r lefel cyllido.

Edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn y drafodaeth gyhoeddus y gobeithiwn y bydd yr adolygiad hwn, a'r weledigaeth hon ar gyfer dyfodol S4C, yn ei hysgogi.



## PENNOD 1:

# S4C HEDDIW

Yn unigryw, yn annibynnol, yn canolbwyntio ar wasanaeth cyhoeddus, ac uwchlaw dim, yn Gymraeg. Mae S4C heddiw yn enw cyfarwydd ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Rydym yn darparu gwasanaeth teledu Cymraeg ar bob prif lwyfan yng Nghymru, ar loeren a chebl ledled y DU, a gwasanaethau dal-i-fyny ar-lein sydd ar gael ar alw.

Rydym yn cyflwyno amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel – adloniant, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth – ac rydym yn ceisio cyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau mwyaf perthnasol a chyfoes. Mae gwasanaeth S4C yn sicrhau dewis ac amrywiaeth pwyslais, a thrwy gomisiynu cynnwys gan ystod eang o gwmnïau cynhyrchu annibynnol , mae'n cyfuno amrywiaeth o safbwyntiau a gweledigaethau.

Mae BBC Cymru'n darparu isafswm o ddeg awr yr wythnos o raglenni i'r gwasanaeth, o'i gyllid ei hun, trwy ofyniad statudol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys gwasanaeth newyddion cynhwysfawr, opera sebon dyddiol, rhaglenni chwaraeon a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae hyn yn un elfen o'r berthynas adeiladol a chydweithredol sydd wedi ei datblygu rhwng y ddau ddarlledwr dros y blynyddoedd diweddar, ac sy'n cynnwys cydweithio creadigol newydd, galluogi i gynnwys S4C fod ar gael ar y BBC iPlayer, a chynllunio arbedion ariannol trwy rannu adnoddau technegol.


















**629,000**

**Cyrhaeddiad wythnosol (o leiaf tair munud yn olynol) 2015/16**

**9.9M**

**Nifer y gwylwyr drwy'r DU 2015/16**

Yn 2015/16, cyrhaeddodd maint cynulleidfaoedd S4C, ar y teledu ac ar-lein, uchelfannau newydd yn yr oes ar ôl newid i ddigidol. Roedd cyrhaeddiad teledu ar ei lefel uchaf mewn naw mlynedd, ac fe dorrodd cyrhaeddiad ar-lein y record flaenorol.[1]


Er bod ein cylch gorchwyl presennol yn canolbwyntio ar deledu, mae S4C wedi cydnabod yr angen i ddarparu cynnwys i'r rheiny sy'n gwylio ar lwyfannau eraill. Y llynedd, fel cynllun peilot cyfyngedig, fe wnaethom lansio sianel annibynnol ar YouTube o'r enw *Pump*, gan dargedu cynulleidfa iau/oedolion ifanc. Er mai cyfyngedig yw'r cynnwys sydd wedi'i ddarparu hyd yma, mae wedi cael derbyniad da iawn.

Mae bodolaeth S4C ynddo'i hun yn ymarferiad mewn amrywiaeth ac yn dystiolaeth bendant o ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth y DU i amrywiaeth yn y cyfryngau a darlledu. Rhown lais a llwyfan i gynulleidfa iaith leiafrifol allu mynegi a phortreadu ei hun, yn ogystal â chael ei diddanu a'i haddysgu. Ond rydym yn gwbl ymroddedig hefyd i adlewyrchu agweddau eraill ar amrywiaeth Cymru fodern ar y sgrîn a thu ôl i'r sgrîn - gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.


Ers lansio S4C, rydym wedi ceisio sicrhau y gall cynulleidfa mor eang â phosibl rannu'r profiadau a ddarparwn. Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau mynediad, ac yn gweithio'n gyson i wella'r rhain er mwyn bodloni gofynion cynulleidfa sy'n esblygu.

[1] Adroddiad Blynyddol S4C 2015/2016


**Dosraniad Gwariant S4C 2015/16**




**Rhaglenni a gomisiynwyd ac a brynwyd (gan gynnwys ailddarllediadau) gan S4C** [2]




**Costau'n ymwneud â'r Gwasanaeth Rhaglenni** [2]





**Costau gweithredu a gweinyddu** [2]

Rydym yn ddarbodus, gan gadw gorbenion y sefydliad at ryw 4%, ac mae cost cynnwys fesul awr wedi lleihau o dros draean er 2009.[2] Fodd bynnag, mae effaith economaidd y cyllid cyhoeddus sydd wedi ei fuddsoddi yn y sector cynhyrchu a'r diwydiannau creadigol yn sylweddol – mae pob £1 a fuddsoddwyd gan S4C yn yr economi yng Nghymru a'r DU yn creu cyfanswm gwerth o £2.09.[3]

Y flwyddyn nesaf, bydd S4C yn symud ei bencadlys i Gaerfyrddin yng ngorllewin Cymru. Bydd y symud yn sbardun i effaith economaidd ac ieithyddol sylweddol ar orllewin Cymru, yn gyson ag uchelgais llywodraeth o sicrhau bod buddsoddiad o fudd i bob cwr o'r wlad. Bydd hefyd yn arwain at arbedion ariannol pellach i S4C. Wrth ddod yn un o'r ychydig ddarlledwyr cenedlaethol nad yw wedi'i ganoli ym mhrif ddinas y wlad, byddwn yn cynnal swyddfa lai yng Nghaernarfon yng ngogledd Cymru a phresenoldeb cryf yng Nghaerdydd lle rydym yn cynllunio i rannu cyfleusterau darlledu gyda'r BBC, gan fanteisio ar dechnolegau newydd a gweithdrefnau er budd i'r ddau sefydliad.


Er gwaetha'n hymdrechion gorau, hyd yn oed gyda'n cylch gorchwyl presennol, mae wedi bod yn heriol i ddyrannu cyllid i wasanaethu cynulleidfaoedd ar lwyfannau digidol yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaeth llinol sy'n bodloni disgwyliadau gwylwyr. Mae'n rhaid i'n cynnwys ddatblygu yr un mor gyflym â gwasanaethau darlledu cyhoeddus (DGC) eraill yn yr oes gyfryngol gystadleuol hon, sy'n golygu mai dim ond yn rhannol y mae cyllid yn llwyddo i lenwi oriau darlledu gyda chynnwys newydd. I gyflwyno amserlen lawn, gydol y flwyddyn, mae angen i ni droi at ailddarllediadau o gynnwys a ddangoswyd yn flaenorol. Gall darparu mwy nag un cyfle i wylio rhaglen dda fod yn werthfawr, ond nid yw'r sefyllfa lle mae 58% o'n hamserlen yn cynnwys ailddarllediadau yn rhywbeth y mae llawer o wylwyr yn ei ddisgwyl gan wasanaeth cenedlaethol o ansawdd uchel.[4]

[2] Adroddiad Blynyddol S4C 2015/2016
[3] Ymchwil Annibynnol gan Arad ar gyfer S4C, 2012
[4] Arolwg Cyhoeddus S4C, 2016
[5] Adroddiad Blynyddol S4C 2009





**Cost yr awr - Rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C 2009** [5]

**Cost yr awr - Rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C 2015/16** [2]




**Cost yr awr - Holl oriau darlledu 2009** [5]

**Cost yr awr - Holl oriau darlledu 2015/16** [2]




**Nifer y cwmniau cynhyrchu** [2]

# SEFYLLFA BRESENNOL S4C MEWN BYD AML-SIANEL, TRAWS-LWYFAN

Er bod y dymuniad i wylio cynnwys Cymraeg, a chael eu haddysgu a'u diddanu yn Gymraeg, yn uno ein cynulleidfa, nid yw holl siaradwyr Cymraeg yn un demograffeg unigol. Mae ein cynulleidfa yn groestoriad o'r boblogaeth ehangach sydd, yn naturiol, yn cynnwys llawer o grwpiau oedran a diddordebau gwahanol. Hyd yn oed cyn y newid i ddigidol yng Nghymru yn 2010, dechreuodd S4C, ynghyd â'r holl DGCau eraill, weld dirywiad yn ei chynulleidfa wrth i wylwyr brofi'r cannoedd o sianeli newydd a ddaeth ar gael a chwilio am raglenni oedd yn targedu eu hanghenion a'u diddordebau yn fwy rheolaidd – boed yn gerddoriaeth, chwaraeon, ffordd o fyw neu ddrama.

Llwyddodd Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill i fodloni'r her o ddal gafael ar gyfran o'r gynulleidfa drwy lansio sianeli teledu newydd ar gyfer cynulleidfaoedd targed, e.e. E4 ac ITV2, y ddau yn apelio at bobl iau. Mae datblygu teulu o sianeli teledu, ac yna ategu hyn gyda chynigion ar-lein wedi'u targedu, wedi galluogi DGCau eraill yn y DU i gynnal eu cyfran o'u marchnad fwy neu lai.[6]

Nid yw'r hyblygrwydd ariannol wedi bod gan S4C i archwilio opsiynau tebyg. Byddai bodloni costau dosbarthu a chostau Dewislen Rhaglenni Electronig, yn ogystal â chost cynnwys newydd, yn faich mwy fel cyfran i DGC bach â chyllideb sy'n lleihau, nag i ddarlledwr mwy. Yn ogystal â chyfyngiadau ariannol, mae ein cylch gorchwyl presennol yn hen-ffasiwn gan nad yw'n ein galluogi i gomisiynu'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd digidol. Gyda thechnolegau newydd yn datblygu, mae'n rhaid i ni edrych nawr i ddatblygu S4C sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol i garfannau gwahanol o'r gynulleidfa, gan greu mathau newydd o gynnwys, cyflwyno gwasanaethau newydd a harneisio brwdfrydedd y gynulleidfa dros ffyrdd newydd o ddefnyddio cynnwys y cyfryngau. Rhaid i ni gyflawni hyn yn gost-effeithiol ac yn gyflym, a chadw sianel linol apelgar a chadarn wrth wraidd cynnig S4C ar yr un pryd.

[6] Enders Analysis, 2016



# Y FFORDD YMLAEN

Yr hyn sy'n gyrru popeth i S4C yw'r gynulleidfa. Mae'n gofyn llawer, mae'n byw mewn byd sy'n fwyfwy cysylltiedig ac mae eisiau gwylio, defnyddio a rhannu cynnwys cyfryngol trwy gyfrwng y Gymraeg – iaith sy'n ffynnu. Eto, prin yw'r cynnwys Cymraeg ar hyn o bryd ar draws sianeli'r cyfryngau cymdeithasol a'r llwyfannau digidol lle mae llawer o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn treulio'u hamser. Nid yw anghenion presennol siaradwyr Cymraeg, na'u hanghenion yn y dyfodol, yn cael eu diwallu.

I fod yn berthnasol, mae angen cylch gorchwyl diwygiedig ar S4C fel bod modd i ni fod ym mhob man lle mae'r gynulleidfa, yn cynnig ystod o gynnwys yn y ffurfiau amrywiol y mae eisiau eu defnyddio, pryd bynnag a sut bynnag y mae'n dymuno gwylio. Nid yw ymagwedd un-maint-i-bawb yn gweithio i ddarlledwyr mwyach; mae angen i ni ddarparu dull wedi'i bersonoli, ac wedi ei deilwra'n fwy at yr unigolyn, o ddarparu cynnwys ac ymgysylltu â'n cynulleidfa.

Os na allwn wneud y buddsoddiad angenrheidiol i weithredu'r cyfryw newidiadau, mae perygl i ni ddifreinio'r siaradwyr Cymraeg a ddaeth ag S4C i fodolaeth, y rhai sy'n gwylio, yn mwynhau ac yn cefnogi'r sianel heddiw a'r rheiny sydd eisiau'r dewis o gael eu haddysgu, o gael gwybodaeth a chael eu diddanu yn Gymraeg yn y byd cysylltiedig am flynyddoedd i ddod.



## PENNOD 2:

# S4C YFORY – EIN GWELEDIGAETH

TROSOLWG

Ein gweledigaeth yw creu S4C sy'n berthnasol, yn apelgar ac yn datblygu'n gyson o ran y cynnwys a gomisiynir gennym, a sut mae pobl yn defnyddio'r cynnwys hwnnw.

Bydd cynnwys S4C yn ysbrydoli, yn twymo'r galon, yn drawiadol, yn addysgiadol ac yn ddifyr.

Cynnwys Cymraeg fydd rheswm ein bodolaeth o hyd, ond bydd comisiynu cynnwys mwy amrywiol i'n cynulleidfaoedd, ar ffurf-hir a ffurf-fer, ac ar gael ble a phryd bynnag y dymunant, yn gadarn wrth wraidd S4C yfory.

Mae gennym farn glir ynghylch y math o wasanaeth y mae angen i ni fod - gan symud o sefyllfa draddodiadol y sianel fel darlledwr llinol yn bennaf, i fod yn ddarparwr sawl math o gynnwys, ar draws nifer o lwyfannau. Mae angen i ni ymgysylltu'n llawnach â demograffeg iau, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n gwylwyr craidd, teyrngar. Mae angen i ni ddarparu gwasanaeth wedi'i bersonoli gyda dewis o gynnwys sy'n adlewyrchu arferion gwylio unigol, o ran ffurf y cynnwys a sut caiff ei wylio. Mae'r angen i gynnig opsiynau darlledu ac opsiynau 'dewis personol' yn hanfodol i ddyfodol S4C.

Er mwyn gwneud hyn, fe fydd yn rhaid i ni weithio'n agos gyda'n holl bartneriaid - y BBC, cynhyrchwyr annibynnol ac ITV Cymru - i ddatblygu ffyrdd newydd o feddwl am ddymuniadau ein cynulleidfa, gan barhau i bwysleisio safon a gwreiddioldeb y cynnwys.

Ein huchelgais yw datblygu o fod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC) i fod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC). Mae hyn yn adlewyrchu'n well y ffordd y mae DGCau eraill y DU eisoes yn gweithredu, a byddai'n dod ag S4C yn fwy cyson ag arfer gorau'r DU ac yn rhyngwladol. Bydd yn ein galluogi ni i gomisiynu a dosbarthu cynnwys ar unrhyw lwyfan poblogaidd - darlledu neu ar-lein.

**Prif Uchelgeisiau S4C o Fewn y Weledigaeth**

i. **Darparu Cynnwys ar Bob Llwyfan: Sicrhau y gall y gynulleidfa ddefnyddio cynnwys S4C pryd, ble a sut bynnag y dymunant**

ii. **Creu'r Cynnwys Cywir: Ei wneud yn fwy perthnasol, cystadleuol ac amrywiol**

iii. **Gwerth Ehangach fel Gwasanaeth Cyhoeddus: Sicrhau buddion economaidd, ieithyddol ac addysgol o'n gwaith**

iv. **Strategaeth Fasnachol i Helpu Gyrru'r Weledigaeth: Gwella ein galluoedd a'n henw da masnachol**

# i: DARPARU CYNNWYS AR BOB LLWYFAN

Mae angen i gynnwys S4C fod ar gael ble mae pobl yn gwylio - ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, safleoedd fideo ffurf-fer, teledu llinol, Teledu Clyfar, ac unrhyw lwyfan poblogaidd arall nawr ac yn y dyfodol. Y weledigaeth yw dod yn ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus cyflawn.

Yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (CGC), byddwn yn adeiladu ar gryfderau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC). Byddwn yn cynnal yr elfennau hynny, tra'n cydnabod mai dim ond un dull yw darlledu - er yn ddull cadarn - o gyrraedd cynulleidfaoedd a bodloni yr angen i ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg yn yr oes ddigidol.

Nid yw'n ddigon mwyach creu cynnwys gwych ac yna disgwyl i'ch cynulleidfa ganfod hynny drwy wylio'r teledu. Er bod 'darlledu' yn bwysig o hyd, mae'n hymchwil ansoddol yn dangos bod mwy a mwy o bobl yn disgwyl gwasanaethau rhaglenni wedi'u personoleiddio, sy'n bodloni eu hanghenion unigol eu hunain.

I fod yn wirioneddol gystadleuol heddiw, bydd S4C yn ceisio darparu profiad gwylio mwy personoledig i rai carfannau o'r gynulleidfa, gan guradu cynnwys mewn ffyrdd ystyrlon fel y gall pobl gael gafael yn rhwydd ar y cynnwys mwyaf perthnasol iddyn nhw ar ba lwyfannau bynnag maen nhw'n eu dewis ar gyfer defnyddio cynnwys. Yn ei dro, mae personoli yn rhoi gwybodaeth i S4C am ddewisiadau a hoffterau cynulleidfaoedd ar gyfer creu a darparu cynnwys yn y dyfodol, ac mae'n ysgogi ymgysylltu.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran sicrhau bod gennym gynrychiolaeth ar lwyfannau darlledu allweddol (gweler adran S4C Heddiw) - ac mewn safleoedd amlwg - ac rydym wedi treialu cynnwys newydd ar YouTube gyda *Pump*. Ond nid yw ein cynnig digidol cyffredinol yn manteisio'n llawn ar botensial technolegau newydd ac archwaeth y cyhoedd i ddefnyddio'r technolegau hynny. Nid yw cynnwys Cymraeg ar gael yn y ffordd y dylai fod i fodloni anghenion cynulleidfa heddiw.

**Sianel Linol S4C**

Mae ymchwil yn dangos, er ei bod yn glir bod rhai grwpiau oedran yn gwylio llai o deledu ar hyn o bryd gan ddewis defnyddio cynnwys trwy lwyfannau eraill,[7] nid oes unrhyw amheuaeth, dros y degawd nesaf o leiaf, y bydd poblogrwydd y teledu ymhlith grwpiau oedran eraill, yn ogystal â lle'r teledu fel cartref gwylio teuluol, yn parhau'n gryf.[8] Bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'u buddsoddiad sylweddol parhaus mewn rhaglennu llinol prif ffrwd, yn cynnig prif fodd darlledu ar y teledu yn cadw ei le fel prif fodd pobl o ddefnyddio cynnwys.

Rhaid i ni felly barhau i fuddsoddi yn ein presenoldeb ar brif lwyfannau teledu am flynyddoedd i ddod a pharhau i ddarparu gwasanaeth llinol cystadleuol ac uchelgeisiol.

**Chwaraewr Ar-lein S4C: mwy o gynnwys, mwy o amlygrwydd, mwy o ymgysylltu**

Ar hyn o bryd, mae S4C yn gweithredu 'chwaraewr' ar-lein cymharol syml, gan ddarparu gwasanaethau byw a gwasanaethau dal-i-fyny yn bennaf ar gyfer cynnwys teledu ffurf-hir – gan mwyaf, mae ar gael am 35 diwrnod ar ôl y darllediad gwreiddiol.

Mae ein partneriaeth strategol â'r BBC wedi ei gwneud hi'n bosibl i gynnwys diweddaraf S4C fod ar gael ar BBC iPlayer. Rydym eisiau adeiladu ar fanteision y bartneriaeth, ond gan hefyd ddefnyddio ein chwaraewr ein hunain i greu gwasanaeth gwirioneddol bersonoledig yn gyson â disgwyliadau'r gynulleidfa. Y nod fydd iddo gynnig mynediad i'r holl gynnwys presennol a chynnwys hanesyddol rydym yn berchen yr hawliau dosbarthu presennol ar eu cyfer.


**Yn rhan o'n partneriaeth strategol ehangach, rydym wedi dod i drefniant gyda'r BBC, sy'n golygu mai cynnwys dal-i-fyny S4C yw'r unig gynnwys nad yw'n gynnwys y BBC sydd ar gael ar BBC iPlayer. Mae hon wedi bod yn fenter lwyddiannus ac mae wedi bod yn llwyfan pwysig i ehangu gwylio rhaglenni S4C ar-lein, o fewn terfynau amser cytûn. Edrychwn ymlaen at archwilio cyfleoedd pellach i gydweithredu a fydd o fudd i'n cynulleidfaoedd.**

**Hyrwyddo ymgysylltu, effeithlonrwydd ac amlygrwydd**

Chwaraewr newydd S4C fydd y sbardun y tu ôl i holl gynnwys S4C ar lwyfannau digidol. Bydd yn ein galluogi i anfon cyfathrebiadau uniongyrchol a phersonoledig i'n tanysgrifwyr gyda diweddariadau a gwybodaeth, yn ogystal â chynnig mynediad i gynnwys cyfoethog sy'n addas i'w hanghenion a'u dewisiadau gwylio unigol eu hunain.

Bydd yn ein galluogi ni i awtomeiddio a mireinio ein gweithdrefnau ar gyfer gwneud taliadau i gyfranwyr a deiliaid hawliau ar sail defnydd.

Yn naturiol, bydd y chwaraewr newydd hwn ar gael drwy wefan S4C ei hun, ond drwy gymaint o lwyfannau eraill â phosibl hefyd, gan adeiladu ar gynlluniau presennol i lansio apiau ar Deledu Clyfar Samsung, er enghraifft. Bydd yn rhoi amlygrwydd i S4C ar lwyfannau digidol wrth i ni geisio gwneud ein chwaraewr ar gael i bawb ar y dyfeisiau mwyaf poblogaidd. Ond byddwn hefyd am sicrhau bod S4C yn cael ei gynnwys ar gymaint o lwyfannau cynnwys trydydd parti â phosibl.




**Holl gynnwys S4C ar-lein**

Bydd galluoedd technegol y chwaraewr newydd yn hyrwyddo amlygrwydd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd, ond byddwn hefyd yn anelu i chwyldroi ein cynnig o gynnwys ar-lein.

Mewn oes pan mae gwasanaethau a gynigir drwy lwyfannau tebyg i Netflix ac Apple TV wedi'u sefydlu o ran disgwyliadau cynulleidfaoedd, y nod yw rhoi un cartref hwylus cydnabyddedig ar gyfer holl gynnwys S4C. Rydym eisiau galluogi tanysgrifwyr i gael mynediad i'r ystod cynnwys ehangaf posibl a'u galluogi i guradu eu rhestri chwarae eu hunain.

Yn ychwanegol at ffrydio'r sianel linol yn fyw, byddai'r gwasanaeth newydd hwn yn darparu:

- cyfleuster dal-i-fyny ar gyfer rhaglenni ffurf-hir diweddar S4C;
- cynnwys ffurf-fer atodol i raglenni – tu ôl i'r llenni, cyfweliadau talent ac ati;
- cynnwys ffurf-fer gwreiddiol newydd, wedi'i guradu yn ôl thema;
- cynnwys archif, wedi'i guradu yn ôl genre/ meysydd diddordeb;
- cynnig 'setiau bocs', yn archwilio'r opsiwn talu i gadw.

**Chwaraewr annibynnol i blant**

Mae gennym uchelgais i greu gwasanaeth ar-lein annibynnol i blant, wedi'i fodelu ar yr uchod, i wneud cynnwys Cymraeg ar gael yn haws i blant sy'n siarad yr iaith neu'n ei dysgu. Byddai ganddo apiau cysylltiedig, yn galluogi plant i bori drwy'r cynnwys yn haws ar ddyfeisiau symudol heb risg o daro ar gynnwys sy'n anaddas neu'n amherthnasol i'w hoedran.

**Bydd y datblygiadau hyn yn mynnu llu o addasiadau technegol ac uwchraddiadau i'n cynnig presennol, yn ogystal ag adnoddau ychwanegol i ddigideiddio, codio a churadu cynnwys, ac i sicrhau'r hawliau priodol ar gyfer dosbarthu cynnwys.**

[7] Thinkbox, 2016
[8] Enders Analysis 2016 yn seiliedig ar BARB/InfoSys+

**Darparwyr teledu ar-alw**

Mae nifer o ddarparwyr teledu sefydledig yn cynnig sianeli byw ac yn gweithredu fel cyfryngau i gael mynediad i gyfleusterau ar alw darlledwyr drwy setiau teledu. Lansiwyd S4C ar YouView ar ddechrau 2014. Ein nod yw ymgorffori S4C ar wasanaethau ar alw pellach lle bo'n bosibl, gyda dau lwyfan penodol – Freeview Play a Freesat Freetime - yn cael eu targedu'n gynnar.

**Teledu Clyfar a Ffrydwyr Cyfryngau**

Yn draddodiadol, mae DGCau wedi mwynhau amlygrwydd arbennig ar EPG (Dewislen Rhaglenni Electronig) teledu. Mae hyn wedi bod yn hynod werthfawr o ran cynnal ymwybyddiaeth o gynnig rhaglenni S4C yn yr oes ddigidol.

Erbyn hyn, gyda'r cynnydd sydyn yn y niferoedd sy'n prynu setiau teledu clyfar, a'r proffil is a roddir i'r Ddewislen Rhaglenni Electronig gan rai llwyfannau, fe allai siaradwyr Cymraeg a gwylwyr eraill ei gweld hi'n anoddach fyth dod o hyd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg ar lwyfannau cyfryngau digidol os nad yw'r cynnwys hwnnw'n cael amlygrwydd priodol.

Rydym eisoes wedi gweithio gydag Amazon Fire a Samsung i rag-lwytho S4C fel Ap Clyfar annatod, gan sicrhau rhywfaint o amlygrwydd pan fydd gwylwyr yn troi eu setiau teledu ymlaen.

Ein gweledigaeth yw i S4C gael ei gynnwys ar bob set deledu clyfar sy'n cael eu hadeiladu'n newydd. Ond mae hyn yn mynnu amser a buddsoddi, o ran datblygu apiau ac o ran sicrhau integreiddio apiau gan weithgynhyrchwyr, ac mae'n debygol o fod angen arweiniad rheoleiddiol cadarn os yw hyn i ddigwydd. Credwn ei bod yn bwysig iawn i'r egwyddor amlygrwydd DGC gael ei hymestyn i gynnwys gwasanaethau ar alw sy'n gwasanaethu darparwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n arbennig o hanfodol i argaeledd cynnwys Cymraeg, gan mai S4C yw'r unig DGC Cymraeg sydd ar gael – yn gwasanaethu siaradwyr Cymraeg ledled y DU.

**Llwyfannau Fideo Allanol**

Dywed adroddiad gan Ofcom yn 2016,[9] fod plant 5 i 15 oed, am y tro cyntaf, yn treulio mwy o amser ar-lein nag yn gwylio setiau teledu, ac YouTube yw'r prif gyrchfan ar-lein. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y rhai 12 i 15 oed, gydag 87% yn gwylio YouTube. Mae'r adroddiad yn dweud hefyd, er eu bod yn gwylio llai o gynnwys ar deledu, nad yw hyn yn golygu bod plant yn defnyddio llai o gynnwys.

Mae'r enghraifft o'r un grŵp hwn yn dangos pa mor bwysig ydyw i gynnwys Cymraeg, apelgar o'r ansawdd gorau i fod ar gael ar lwyfannau fideo allanol.

Ein huchelgais gyda YouTube yw datblygu portffolio bach o sianeli Cymraeg, yn targedu grwpiau oedran gwahanol a'u poblogi yn rheolaidd gyda chynnwys ffurf-fer apelgar. Bydd llawer o hwn yn gynnwys newydd annibynnol – fel ein treial ar gyfer Pump – ond bydd rhywfaint hefyd yn ymwneud â chynnwys ar ein sianel linol ac yn gweithredu fel deunydd hyrwyddo. Yn yr un modd, mae angen i ni wella ein presenoldeb fideo gwreiddiol ar Facebook, sydd wedi dod yn brif lwyfan fideo yn ogystal â llwyfan cymdeithasol, er mwyn ymgysylltu ymhellach â'r rheiny sy'n ei ddefnyddio'n gyson – demograffeg gymharol ifanc. Byddwn hefyd yn monitro tueddiadau wrth i gyfleoedd newydd a llwyfannau newydd ddod i'r amlwg dros gyfnod.

**Cyfryngau Cymdeithasol ac Ymgysylltu**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol ar bob ffurf yn elfen hanfodol o lwyddiant cynnwys heddiw. Mae cynulleidfaoedd, yn enwedig y grŵp oedran 16 i 34, yn buddsoddi'n drwm yn y cyfryngau cymdeithasol ac eisiau rhannu'u barn, sylwadau ar gynnwys, gwneud gofynion ar ddarlledwyr a gofyn cwestiynau. Gall sgwrsio ar y cyfryngau cymdeithasol gynyddu ffigyrau, gyrru ail-gomisiynu a throi talent anhysbys - ac yn wir, defnyddwyr y cyfryngau cymdeithasol eu hunain - yn sêr.

[9] Children and parents: media use and attitudes, Ofcom, 2016

Fe wnaethom newid ffocws egni ein tîm ymgysylltu yn 2016, ac o ganlyniad, fe wnaethon ni gynyddu ein presenoldeb ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol allweddol, gan gyflawni cynnydd sylweddol mewn lefelau ymgysylltu â chynnwys.




Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio deunydd hyrwyddo a threialu ychydig o gynnwys ffurf-fer, ond rydym yn cydnabod ein bod ymhell o fod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar y lefelau gorau. I gyflawni hyn ac i ymgysylltu'n llawn â chynulleidfaoedd sy'n defnyddio mwy o gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol nag unrhyw gyfrwng arall, rhaid i ni greu mwy o gynnwys ffurf-fer, a rhaid i ni hefyd fod yn fwy ymatebol i'n cynulleidfa drwy'r cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo lefelau cyfathrebu ac ymgysylltu uwch. Mae hyn yn mynnu adnoddau ychwanegol.

Rhaid i werth cynnwys newydd, y gellir mynd ato ar draws ystod o lwyfannau, gael ei hyrwyddo i'r eithaf drwy wneud yn siŵr bod ein cynulleidfa yn gwybod beth sydd gennym a sut gellir ei ddefnyddio. Bydd lefel uwch o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn allweddol, gan ledaenu'r gair am apêl amrywiol cynnwys S4C ar bob llwyfan. Bydd hefyd yn ein galluogi i dargedu gwylwyr yn fanwl gyda negeseuon wedi'u personoli.

Yn unol â'n cyfeiriad strategol clir i dargedu cynulleidfaoedd ar y teledu a llwyfannau ar-lein, rhaid i ni barhau i estyn allan i gynulleidfaoedd sy'n ymgysylltu'n fwy rheolaidd â mathau mwy traddodiadol o gyfryngau.

**Cynnwys yn y Gymuned**

Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y gymuned ac mae angen i S4C adlewyrchu bywyd cymunedol, cyfoes yng Nghymru. Mae'n bwysig ein bod yn dod o hyd i ffyrdd i fynd â'n gwasanaeth a'n cynnwys all-lein i'r gymuned ar adegau priodol. Ar hyn o bryd, dim ond un swyddog cymunedau sydd gennym ar gyfer Cymru gyfan. I gyflawni ein gweledigaeth 'ar lawr gwlad', mae angen i ni allu cynyddu ein gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

# ii. CREU'R CYNNWYS CYWIR

Mae'r dyddiau pan fo modd i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (DGCau) fod yn bopeth i bawb wedi hen fynd heibio. Bellach, mae'n rhaid i ni ddarparu rhywbeth arbennig i bawb – cynnwys sy'n siarad yn bersonol â phob gwyliwr, pwy bynnag ydyw a sut bynnag y mae'n dymuno gwylio ei gynnwys Cymraeg.

Mae cynnwys wedi bod yn ganolog i S4C erioed. Ond ein gweledigaeth newydd – y cyfan yn cael ei ysgogi gan newidiadau i anghenion ein cynulleidfa – yw comisiynu'n benodol i gynulleidfaoedd yn ôl beth maen nhw'n dewis ei wylio a sut maen nhw'n dewis ei wylio.

Ein nod yw creu profiadau gwylio difyr i'r teulu ar y teledu yn ystod oriau brig, cyflawni ein syniadau mawr ar draws llwyfannau gan ddylanwadu o ddifrif, a darparu llif mynych a chyson o gynnwys newydd trawiadol ar gyfer llwyfannau ffurf-fer ar-lein. Dyma yw ystod y cynnwys y mae cynulleidfaoedd ei eisiau, yn iaith eu dewis. Ond mae'r gynulleidfa honno dan ddylanwad y farchnad cyfryngau ehangach hefyd, ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel. Mae'n rhaid i gynnwys S4C gystadlu mewn meysydd lle mae DGCau eraill yn gallu buddsoddi mwy o lawer yn eu cynnwys ar hyn o bryd.

Ar draws pob llwyfan, ein nod yw creu ystod benodol o gynnwys perthnasol ac amrywiol sy'n gafael ac yn difyrru, yn synnu ac yn swyno pob carfan o'r gynulleidfa – ar lwyfan eu dewis. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r cynnwys a gynigiwn i'n gwylwyr teyrngar presennol, yn ogystal ag adeiladu perthynas hirdymor gyda'r cynulleidfaoedd hynny sydd, yn ôl ein hymchwil, yn llai tebygol o weld S4C fel rhan reolaidd o'u bywyd ar hyn y bryd e.e. pobl ifanc, cartrefi ieithoedd-cymysg, y rhai 45 i 64-oed, yn ogystal â gwylwyr sy'n siarad llai o Gymraeg.

Ond ni ellir gweld y teledu chwaith fel rhywbeth o'r gorffennol. Mae'r amser a dreulir yn ddyddiol yn gwylio teledu mewn cartrefi sydd â theledu yng Nghymru 13% yn uwch na chyfartaledd y DU,[10] a gyda'r disgwyl y bydd y gwylio teledu llinol yn cyfrif am 75% o'r holl wylio sy'n digwydd yn y DU, hyd yn oed yn 2025,[11] mae teledu yma i aros. Mae hyn yn golygu nad oes gan S4C unrhyw ddewis ond parhau i gynnal ffocws cadarn ar greu cynnwys trawiadol ar gyfer y sianel deledu, ar yr un pryd â datblygu cynnwys newydd i'w roi ar lwyfannau newydd a'r rhai sy'n datblygu.

## Cenhadaeth Greadigol Newydd S4C

Cenhadaeth greadigol newydd S4C yw creu'r sgwrs, cyffwrdd â'r galon a thanio'r dychymyg. Mae gennym bum brif thema i'n galluogi i gyflawni'r genhadaeth hon drwy ein cynnwys:

### Adlewyrchu Cymru fodern:

- Dal drych, ac adlewyrchu cymdeithas fodern Cymru.
- Gafael yn ysbryd yr oes. Pam nawr? Pam ar S4C?

### Gyrru gwylwyr atom:

- Conglfeini newydd ein hamserlen – cyfresi'n dychwelyd.
- Gwylio teuluol, siwrneiau sy'n twymo'r galon, sydd yn datgelu rhywbeth newydd.

### Triniaeth yw popeth:

- Mae'r driniaeth hyd yn oed yn bwysicach na'r testun.
- Meithrin y weledigaeth newydd a sut caiff ei rhoi ar waith yn y sector cynhyrchu, ynghyd â rhaglen datblygu doniau.

### Amseru yw popeth:

- Y syniad iawn ar yr amser iawn i'r gynulleidfa iawn.
- Sefydlu cynnwys fel rhan naturiol o amserlenni bywyd prysur.

### Adegau cenedlaethol:

- Cynnwys traws-llwyfan sy'n tynnu pobl ynghyd ac yn eu hysgogi i siarad.
- Rhaglennu sydd yn ddigwyddiad ynddo'i hun.

Mae strategaeth cynnwys tair blynedd newydd S4C, gan adeiladu ar y pum thema hyn, eisoes wedi'i chyflwyno i'r sector cynhyrchu annibynnol.

[10] Enders Analysis 2016, BARB/Infosys+ (2016)
[11] Enders Analysis yn seiliedig ar BARB/Infosys+

**Cyfeiriad Newydd i Gynnwys Llinol**

Ein bwriad yw adfywio'r sianel linol i fod yn fwy cyffrous, yn fwy beiddgar, yn fwy amrywiol ac yn fwy cystadleuol gyda sianeli eraill. Mae angen iddi chwarae rhan fwy ym mywydau ein cynulleidfa. Mae gwasanaethau rhyngweithiol, pleidleisio drwy neges destun ac apiau rhaglenni, bob un yn enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i annog cymryd rhan mewn rhaglenni llinol yn gyffredinol – cyfoethogi'r profiad i'r gynulleidfa. Ond mae ein huchelgais yn mynd ymhellach na hyn. Ein nod yw creu cynnwys mwy apelgar sy'n dod â phobl at ei gilydd o flaen y teledu ac yn y gymuned i ddathlu Cymru gyfoes. Rydym eisiau i bobl wylio am mai dyna'r cynnwys gorau sydd i'w gael.

Er gwaethaf y darogan y byddai'r cynnydd mewn dewis a llwyfannau yn arwain at ddiflaniad rhaglenni teledu y mae pawb yn eu gwylio ac yn sôn amdanynt, yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld cynnydd aruthrol yn y cyfresi "rhaid gweld" bondigrybwyll sy'n gyrru arferion gwylio teuluoedd cyfan yn yr oriau brig ganol wythnos ac ar y penwythnos. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni cyllideb uchel ac ansawdd uchel fel *The Great British Bake Off, I'm a Celebrity Get Me Out of Here, Strictly Come Dancing, Springwatch, Britain's Got Talent, The Island with Bear Grylls, Celebrity Big Brother a Masterchef.*

Mae hyd yn oed y bobl ifanc, sy'n treulio mwy o amser ar-lein nag o flaen y teledu, yn dal i ymgasglu gyda'u teuluoedd i wylio rhai mathau o adloniant 'rhaid gweld' sy'n gyffrous ac yn twymo'r galon.[12]

Gwyddwn na allwn fod yn bopeth i bawb, ond ein sianel linol yw cartref gwylio teuluol yn Gymraeg, ac felly mae'n rhaid i ni greu mwy o gyfleoedd gwylio i deuluoedd eu mwynhau fel grŵp. Bydd y math hwn o gynnwys yn cael ei gomisiynu i ddarparu profiad llawn aml-lwyfan i'r gynulleidfa. Drwy ryddhau cynnwys ffurf-fer ychwanegol, byddwn yn mynd ati i annog defnydd ohono ar draws cyfryngau, ynghyd â thrafod a rhannu drwy lwyfannau cymdeithasol. Yn ogystal â gweithio i ymgorffori cynnwys S4C i fywyd teuluol yn ei holl ffurfiau, bydd y strategaeth hon yn adeiladu perthynas y sianel â gwylwyr iau.


Er bod S4C yn falch o'i hanes o sicrhau gwerth eithriadol am arian, un o'n heriau mwyaf yw cynnal ein gallu i gystadlu â DGCau eraill sy'n gallu buddsoddi mwy o lawer mewn cynnwys oriau brig. Mae uchafswm gwariant S4C ar gynyrchiadau yn y prif genres ymhell o lefel y gwariant gan DGCau eraill yn ôl y rhestri tariffau diweddaraf a gyhoeddwyd.

**Rhaglenni oriau brig**


| | Cyfartaledd Adloniant | Uchafswm Adloniant | Cyfartaledd Drama | Uchafswm Drama | Cyfartaledd Ffeithiol | Uchafswm Ffeithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **C4** (tariffau 2009) | 245,000 | 400,000 | 650,000 | 1,000,000 | 175,000 | 200,000 |
| **BBC Rhwydwaith** (tariffau 2016) | 575,000 | 750,000 | 825,000 | 1,000,000 | 263,000 | 300,000 |
| **BBC Cenhedloedd a Rhanbarthau*** (tariffau 2016) | 185,000 | 220,000 | | 450,000 | | 200,000 |
| **ITV** (tariffau 2014) | 575,000 | 1,000,000 | 550,000 | 800,000 | 225,000 | 300,000 |
| **S4C** (ar gyfer 2017) | 60,000 | 100,000 | 220,000 | 250,000 | 48,000 | 60,000 |

*Nid oes amrediad tariff amser brig penodol wedi ei gyhoeddi ar gyfer drama a rhaglenni ffeithiol BBC Cenhedloedd a Rhanbarthau.

Ond mae cyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon incwm presennol yn dangos ein cyllideb cynnwys yn lleihau'n araf mewn termau arian parod, dros y pum mlynedd nesaf. A chan ganiatáu ar gyfer chwyddiant, mae'r pwysau yn fwy amlwg fyth:




[12] Children and parents: media use and attitudes report, Ofcom, 2016



Bydd parhau i gomisiynu cynnwys ar y lefelau presennol yn unig yn gofyn am fuddsoddiad yn unol â rhagolygon chwyddiant. Mae'r rhagolygon presennol rywle rhwng 3% (RPI) a 2% (CPI) dros y pum mlynedd nesaf.[13] O ystyried yr amcangyfrif hwn, bydd angen cynnydd blynyddol sy'n tyfu o tua £2m ym mlwyddyn un hyd at tua £9m ym mlwyddyn pump dim ond er mwyn atal y gostyngiad mewn termau real yn y gyllideb cynnwys dros y pum mlynedd nesaf.

Mae graddfa'r arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd eisoes, ynghyd â'r rheiny sydd eisoes wedi eu rhagdybio yn y gyllideb, yn golygu bod ein gallu i ddod o hyd i arbedion pellach wedi ei brofi i'r eithaf.

Mae gwylwyr Cymraeg eu hiaith yn gwbl ymwybodol o gynnwys ar sianeli eraill ac yn ei wylio. Yn anochel, maent yn cymharu gwerthoedd cynhyrchu, amlder ac amrywiaeth cynyrchiadau. Os yw S4C am gynnal ei hygrededd fel gwasanaeth teledu prif ffrwd, rhaid i ni sicrhau nad yw ein cynnwys yn dioddef o gael ei gymharu â safonau darlledwyr poblogaidd eraill.

**Mae bron holl gynnwys gwreiddiol S4C a gynhyrchwyd gan y sector – dros 1300 o oriau'r flwyddyn – o ddrama i raglenni plant, chwaraeon, rhaglenni dysgwyr a rhaglenni ffeithiol – yn cael eu cynhyrchu am bron i £20m yn llai na chost cyfres deg awr The Crown ar Netflix, (adroddir ei bod wedi costio £100m).**

Y ffocws arall i'r sianel yw creu adegau cenedlaethol, uchafbwyntiau yn yr amserlenni sy'n tynnu pobl ynghyd ac yn ysgogi pobl i siarad – ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn cymunedau ledled Cymru. Er mwyn i'r prosiectau traws-llwyfan hyn fod mor llwyddiannus â phosibl, mae angen iddynt adlewyrchu bywyd yng Nghymru hefyd a bod yn unigryw - rhywbeth a allai neu a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan S4C yn unig.

**Enghreifftiau:**
**Mis y Chwedlau 2017:**

Mae Croeso Cymru yn canolbwyntio ar chwedlau Cymru ar gyfer ei gweithgarwch marchnata eleni, ac i gyd-fynd â hyn, rydym yn cynllunio nifer o raglenni arbennig. Byddwn yn creu cynnwys cyfoes, wedi'i seilio'n fras ar yr etifeddiaeth chwedlau gref yn niwylliant Cymru, a fydd yn ymddangos ar yr awyr, ar-lein ac yn hawdd i'w rannu ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Bydd y prosiect yn cynnwys chwilio am straeon a chwedlau cariad Cymreig modern, cerddoriaeth a rhaglenni plant, yn ogystal â golwg amharchus ar chwedlau hynafol o safbwynt cyfoes.

**Fflicio'r Swits:**

Gan weithio ochr yn ochr â phrif astudiaeth ar newid ymddygiadol, rydym yn ymchwilio i brosiect proffil uchel a elwir ar hyn o bryd yn 'Fflicio'r Swits', am bobl yn gwneud newidiadau ystyrlon i'w bywydau. Bydd hyn yn adloniadol tu hwnt, ond bydd hefyd yn cynnwys neges gwasanaeth cyhoeddus gref iawn, a byddwn yn mynd â llawer iawn o gynnwys allan i'r gymuned – mewn ffordd sy'n hwyl, yn ddifyr ac yn ystyrlon.

Gellir cyflawni'r ddwy fenter yn fwy ac yn well yn unol â'r lefel buddsoddiad sydd ar gael.

[13] Y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb, Mawrth 2017

### Creu Cynnwys Ffurf-Fer

O ystyried ein cylch gorchwyl cyfyngol, y pwys a roddir ar deledu llinol a'n hangen ni i gomisiynu cynnwys newydd yn gyson, nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i ganolbwyntio ar greu cynnwys ffurf-fer apelgar a gwreiddiol, sy'n targedu cynulleidfaoedd iau yn benodol. Yn unol â'r weledigaeth hon, ein nod yw newid hyn. Bwriadwn ddarparu cynnwys Cymraeg i gynulleidfaoedd y mae'n well ganddynt ddefnyddio'u cynnwys yn y modd hwn, yn enwedig y rhai 16 i 34 oed. Hwn yw'r grŵp sydd yn fwyaf tebygol o wylio cynnwys drwy lwyfannau ffurf-fer a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar ddyfeisiau symudol,[14] – ac nid oes fawr ar gael iddynt yn y Gymraeg.[15]

Yn fras, mae angen i ni greu dau brif fath o gynnwys ffurf-fer:

1. cynnwys gwreiddiol, annibynnol sy'n ysgogi rhyngweithio cynulleidfaoedd newydd sbon ar draws llwyfannau nad ydynt yn llinol; a
2. chynnwys sy'n hyrwyddo ac yn ehangu diddordeb mewn rhaglenni presennol ac yn eu hategu.

Rydym wedi dangos ein penderfyniad i archwilio'r farchnad am gynnwys ffurf-fer newydd, drwy ein peilot arloesol, Pump, ac erbyn hyn mae cynhyrchwyr yn gweithio gyda ni i ganfod ffyrdd arloesol o ddarparu mwy o gynnwys ffurf-fer, yn gysylltiedig â phrosiectau ar y sgrîn.

Mae un cynhyrchydd yn darparu 30 awr (60 x 30') o gynnwys llinol, ar thema cerddoriaeth, yn targedu cynulleidfaoedd iau i'r sianel bob blwyddyn. Rydym yn gofyn iddynt nawr greu nifer debyg o gyfanswm oriau - ond gyda chynnwys ffurf-fer yn unig yn barod ar gyfer ei rannu ar draws llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol ac yna ei ail-becynnu fel sioe wythnosol ar wedd newydd, yn hwyr y nos ar gyfer y brif sianel.

Mae'r rhain yn gamau bach i'r cyfeiriad iawn i S4C. Bydd cylch gorchwyl newydd a buddsoddiad ychwanegol, fel yr amlinellir ym mhennod 3 y ddogfen hon, yn ein galluogi i wasanaethu cynulleidfaoedd ar lwyfannau newydd yn llawn.

### Comisiynu Cynnwys

Mae S4C wedi mwynhau perthynas hir, iach a chynhyrchiol gyda'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, ITV Cymru a gyda'r BBC, ac rydym eisiau i'r rhain barhau. Fodd bynnag, os ydym am gyflawni ein gweledigaeth yn effeithiol a herio ein creadigrwydd, a'n gallu ein hunain i gystadlu a masnachu, fe fyddwn, yn sgil hynny, yn herio ein partneriaid cynhyrchu yn yr un modd.

Daw cyfran a werthfawrogir yn fawr o raglenni gwreiddiol S4C drwy ddarpariaeth statudol y BBC i S4C - o leiaf 10 awr o raglenni yr wythnos. Mae'r ddarpariaeth hon wedi bodoli ers i'r sianel gael ei chreu ym 1982. Caiff gweddill cynnwys S4C ei gomisiynu o'r sector annibynnol – a deliwn ag oddeutu 50 o gwmnïau unigol bob blwyddyn. Caiff dros 80% o'n cyllid ei wario yn y sector creadigol llwyddiannus hwn, yng Nghymru yn bennaf.

Bydd ein dull o gomisiynu yn newid. Byddwn yn gwella ein cyfathrebu gyda chynhyrchwyr er mwyn meithrin dealltwriaeth glir o'r canlynol:

- ein disgwyliadau creadigol cynyddol;
- y weledigaeth strategol newydd yn S4C – un sy'n fwy allanol/masnachol ac yn cael ei gyrru'n fwy fforensig fyth gan y gynulleidfa;
- gofyniad am fathau gwahanol o gynnwys – ffurf-hir a ffurf-fer.

Mae dull holistaidd newydd o gomisiynu yn golygu ein bod yn ystyried o flaen llaw y cynnwys ffurf-fer sydd ei angen i gefnogi rhaglenni ffurf-hir. Fel hyn, mae cynhyrchwyr yn ymwybodol o'n hanghenion ni a gallant gyflawni yn ystod y broses gynhyrchu. Mae hwn yn fwy cost-effeithiol na mynd ati i greu cynnwys ffurf-fer ar ôl i raglen gael ei chyflenwi.

Fodd bynnag, mae angen newid sylweddol o hyd i ddarparu cynnwys ffurf-fer, gwirioneddol wreiddiol, difyr, digidol yn gyntaf, fel ffilmiau byrion â thema neu gyfres o we-benodau. Byddwn yn cynorthwyo cynhyrchwyr i arallgyfeirio a dod yn arweinwyr yn y maes hwn, a byddwn yn archwilio opsiynau i weithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau eraill i estyn allan a chysylltu â chynulleidfaoedd newydd, gan gefnogi ac ysgogi twf i'r economi ddigidol yng Nghymru.

### Datblygu mwy o gynnwys â photensial masnachol

Ein nod yw adeiladu ar ein henw da fel buddsoddwr mewn prosiectau cyd-gynhyrchu sydd wedi dod â buddion mawr i'r sianel, ein cynulleidfa a sector cynhyrchu Cymru. Ein huchelgais yw gallu targedu mwy o brosiectau potensial uchel, a dyna pam rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu fformatau a gwneud syniadau creadigol da yn rhai gwych. I gael mwy o fanylion, gweler 'Strategaeth Fasnachol i Helpu Gyrru'r Weledigaeth'.

### Gwneud i Gynnwys Presennol Weithio'n Galetach

Mae gan S4C 35 mlynedd o gynnwys yn ein harchif. O'i gyflwyno'n iawn, mewn cyd-destun priodol, gall swyno, addysgu a diddanu o hyd. Byddwn yn ceisio digideiddio gymaint o'r ôl-gatalog hwn â phosibl, a lle bo'n berthnasol, ailbennu ei bwrpas at ei ddefnyddio–mewn cynnwys ffurf-fer er enghraifft – neu edrych ar ffyrdd o allu ei droi yn werth ariannol yn synhwyrol. Mae rhywfaint o raglennu yn cael ei gyfyngu gan faterion hawliau, ond byddwn yn ymgysylltu â deiliaid hawliau amrywiol yn y gobaith o ddod i ateb a fydd o fudd i'r ddwy ochr.




[14] Thinkbox, 2016
[15] Adroddiad Beaufort Research i S4C, 2013

# Canfod a Chefnogi Talent

Mae gan S4C, a'n partneriaid yn y sector cynhyrchu, hanes hir o ddarganfod unigolion talentog iawn a meithrin eu gyrfaoedd ar y sgrîn a thu ôl i'r camera. Mae actorion, cyflwynwyr a chyfarwyddwyr llwyddiannus o gronfa ddoniau S4C yn cynnwys Alex Jones *(The One Show)*, Matthew Rhys *(The Americans, Brothers and Sisters)*, Rhys Ifans *(The Amazing Spider-Man, Notting Hill, Elementary)*, Huw Edwards *(BBC News)*, Iwan Rheon *(Game of Thrones, Our Girl)*, Ioan Gruffydd *(Titanic, 101 Dalmatians, Fantastic Four)*, Euros Lyn *(Doctor Who, Sherlock, Broadchurch, Happy Valley, Last Tango in Halifax)*. Mae ein strategaeth cynnwys newydd yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y cyfleoedd i ganfod ystod amrywiol o ddoniau newydd.

Mae cynhyrchu cynnwys ffurf-fer yn darparu cyfleoedd newydd i dreialu mathau gwahanol o ddawn, gyda sgiliau, ymagweddau ac arddulliau personol gwahanol. Bydd y cynnydd yn y nifer sy'n gwylio, hoffi, rhannu a sgwrsio ar safleoedd fel YouTube a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ymdrechion S4C i annog cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan y defnyddiwr mewn rhai amgylchiadau, yn cael eu harneisio er mwyn amlygu unigolion dawnus na fyddem fel arall yn dod o hyd iddynt.

# iii. GWERTH EHANGACH FEL GWASANAETH CYHOEDDUS

'Does dim dwywaith bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus S4C yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ein cynulleidfa.[16] Mae siaradwyr Cymraeg yn arbennig o'r farn mai S4C yw'r sianel sy'n cyfrannu'n fwyaf effeithiol at ddiwylliant Cymru, sy'n adlewyrchu bywyd cyfoes yng Nghymru orau, ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd yn ei rhaglenni yn well nag unrhyw sianel arall.[17]

Mae'r gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod y gynulleidfa yn gwerthfawrogi'n benodol bod S4C yn portreadu Cymru gyfan.


Pan ofynnwyd iddynt ddewis sianeli sy'n "dangos rhaglenni am fy ardal i o Gymru", dewiswyd S4C gan ganran uwch o lawer (78%) na'r sianel arall agosaf (BBC One Wales, 22%). Yn y tri rhanbarth, roedd yr holl sgorau ar gyfer S4C ar 70% neu uwch:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru: | **77%** |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru: | **81%** |
| De Cymru: | **70%** |

Ond, fel yr unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus a darparwr cynnwys clyweledol Cymraeg, rydym yn ymroi i wneud cyfraniad cyhoeddus ehangach at Gymru a'r iaith Gymraeg.

Yn ystod y 35 mlynedd ers i'r sianel gael ei chreu, mae S4C wedi:

- rhoi statws ac amlygrwydd i'r Gymraeg, a galluogi siaradwyr Cymraeg i weld a chlywed eu hiaith yn cael ei defnyddio gan bobl o bob cefndir ac ym mhob rhan o Gymru;
- ymgorffori egwyddorion amrywiaeth rhagweithiol, gan ganiatáu i Gymru a'i phobl, waeth beth fo'u cefndir, bortreadu, mynegi a gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli ar y sgrîn;
- annog trosglwyddiad iaith a darparu adnoddau dysgu yn yr iaith Gymraeg;
- helpu i greu a chynnal sector teledu a diwydiannau creadigol ffyniannus, gan greu swyddi a chefnogi twf economaidd ledled Cymru.




[16] Beaufort Research, Gwasanaeth Olrhain Delwedd S4C, 2015/16
[17] Beaufort Research, , Gwasanaeth Olrhain Delwedd S4C, 2015/16

## YR IAITH GYMRAEG A'I LLE YN Y BYD DIGIDOL

Mae'r iaith yn ffynnu heddiw ac yn cael ei defnyddio gan bron tri chwarter miliwn o bobl yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig i raddau amrywiol yn eu bywydau – gartref, yn yr ysgol, yn y gwaith ac yn ystod amser hamdden.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn arbennig o uchel ymhlith plant oed-ysgol (pump i 15 mlwydd oed) - 40% - yn ôl y cyfrifiad diwethaf.[18] **Mae'r ffigurau hyn wedi mwy na dyblu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais mawr ar gefnogi twf yr iaith, gan osod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.


**Dyma'r adeg berffaith i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru wrth i'r rhai pump-15 oed dyfu'n oedolion.**

Mae cefnogaeth i'r iaith ymhlith poblogaeth Cymru yn parhau i fod yn uchel. Mae arolwg a gynhaliwyd yn 2016 yn datgan bod 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn credu y dylid gwneud mwy i warchod y Gymraeg fel iaith fyw.[19] Cefnogir hyn hefyd gan 71% o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl a 42% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.


Fodd bynnag, er mwyn cynnal iaith fywiog a pherthnasol, yn awr ac yn y dyfodol, rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod yr iaith yn hawlio ei lle yn y byd digidol ochr yn ochr â'r Saesneg ac ieithoedd eraill.

Er bod rhai datblygiadau pwysig yn mynd rhagddynt, ac yn torri tir newydd, mae ffynonellau eraill o gynnwys digidol yn yr iaith Gymraeg yn brin. Bydd gwireddu gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol yn cael effaith uniongyrchol ar gynnal a chadw'r ecosystem ddiwylliannol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r iaith barhau i ffynnu.

[18] Cyfrifiad 2011, Tabl DC2106WAla- Welsh language skills by sex by age, www.nomisweb.co.uk
[19] Welsh Elections Voter Study, Prifysgol Caerdydd, 2016




Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn arbennig o uchel ymhlith plant oed-ysgol




Cred y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg y dylid gwneud mwy i warchod y Gymraeg.

**Fy Chwaer a Fi**
(Bulb Films rhan o Boom Pictures Cymru)





**Pobol y Cwm**
(BBC Cymru Wales)

## AMRYWIAETH, CYNWYSOLDEB A SYMUDEDD CYMDEITHASOL

### Amrywiaeth

Mae S4C wedi bod yn gefnogwr a gweithredwr polisi amrywiaeth ers tro. Yn wir, amrywiaeth oedd yr hyn a sbardunodd ein bodolaeth. Yn ychwanegol i'n cyfraniad i amrywiaeth ieithyddol, dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ennill gwobrau'r diwydiant ar draws y Deyrnas Unedig am y ffyrdd yr ydym yn portreadu grwpiau a dangynrychiolir ar y sgrîn.

**Gwobrau:**

- **Gwobrau'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol 2014 – Cynrychiolaeth Orau o Anabledd ar y Sgrîn** - Fy Chwaer a Fi (Bulb Films sy'n rhan o Boom Pictures Cymru)
- **Gwobrau Cyfryngau Mind 2015 – Portread Gorau o Iechyd Meddwl mewn Opera Sebon** – Pobol y Cwm (BBC Cymru Wales)
- **Gwobrau Teledu Trawsrywiol 2015 – Gwobr arbennig am adroddiad ar y gymuned drawsrywiol yng Nghymru** – y rhaglen materion cyfoes Y Byd ar Bedwar (ITV Cymru Wales)
- **Gwobrau Teledu Trawsrywiol 2016 – Triniaeth eithriadol o westeion, materion a newyddion trawsrywiol** – y rhaglenni cylchgrawn Heno a Prynhawn Da (Tinopolis)

Rydym yn llwyr gefnogi uchelgais Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gael mwy o amrywiaeth ym maes teledu – ar y sgrîn ac oddi arni – felly rydym yn cydnabod y gallem ac y byddwn yn gwneud mwy yn y maes hwn. Rydym yn trafod dichonoldeb ymuno â Diamond, sef prosiect monitro amrywiaeth ar draws y diwydiant a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol. Byddai hyn yn ein galluogi i fonitro ac adrodd ar amrywiaeth yn gyson ac yn gynhwysfawr yn y dyfodol, ac yn caniatáu i ni ddatblygu targedau perfformiad i sbarduno gwelliant yn y maes hwn.

### Cynwysoldeb

Ers y cychwyn cyntaf, mae S4C wedi ymrwymo i sicrhau bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu rhannu'r profiadau a ddarparwn. Rydym ni'n cynnig sawl gwasanaeth, ar wahanol lefelau, ac yn gweithio'n gyson i wella'r rhain er mwyn bodloni gofynion cynulleidfaoedd sy'n esblygu:

- Rydym yn comisiynu cynnwys ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a diddordeb, yn amrywio o bobl ifanc, i gefnogwyr chwaraeon, i gymunedau ffermio
- Yn 2016, gwnaethom ddarparu is-deitlau Cymraeg ar gyfer oddeutu 13 awr o raglenni bob wythnos
- Rydym yn darparu is-deitlau Saesneg ar gyfer 80.5% o raglenni Cymraeg (targed Ofcom yw 53.3%)
- Rydym yn darparu iaith arwyddo ar gyfer 5.2% o raglenni (targed Ofcom yw 5%)
- Gwnaethom ddarparu sain ddisgrifiad ar gyfer 10.3% o'n rhaglenni (targed Ofcom yw 10%)

Mae S4C yn credu y dylai pawb, waeth beth fo'u hoedran, cefndir, lleoliad, anabledd ac iaith, allu cael mynediad at ein gwasanaethau. Wrth i dechnoleg wella a chynnig datrysiadau mwy fforddiadwy, bydd S4C yn archwilio'r dewisiadau sydd ar gael gyda'r nod o gyflwyno datblygiadau pellach a fydd yn gwella profiadau i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad.

### Symudedd Cymdeithasol

Diolch i S4C, mae gweithio ym maes y teledu wedi bod yn llwybr gyrfa realistig a chyraeddadwy i bobl ifanc yng Nghymru. Yn wir, mae miloedd o yrfaoedd ym maes teledu yng Nghymru wedi cael eu hysbrydoli a'u gwireddu oherwydd bodolaeth S4C a'n buddsoddiad yn y sector cynhyrchu annibynnol.

Mae llawer wedi symud ymlaen i yrfaoedd creadigol, technegol a phroffesiynol mewn mannau eraill, ond mae llawer wedi dewis aros yn eu cymunedau eu hunain a chynnal busnesau cynaliadwy ynddynt.

Bydd yr uchelgeisiau a amlinellir yn y ddogfen hon ar gyfer S4C fwy deinamig a deallus yn ddigidol yn arwain at greu mwy o gyfleoedd gwaith amrywiol yn y sector cynhyrchu annibynnol. Bydd llawer yn gofyn am sgiliau digidol o'r radd flaenaf, sy'n elfen allweddol i alluogi symudedd cymdeithasol ac yn sector blaenoriaeth a amlygwyd ar gyfer twf gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

## HYRWYDDO A CHEFNOGI DYSGU GYDOL OES

Gyda'i gilydd, mae addysg a darlledu iaith Gymraeg wedi bod yn allweddol o ran sefydlogi'r iaith Gymraeg ers y 1980au. Mae 94% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg (a 91% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg) o'r farn bod S4C "yn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw".[20]

Mae gwasanaeth S4C bob amser wedi annog trosglwyddiad iaith ac wedi helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer dysgu yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae S4C yn cynnig rhywfaint o gynnwys dysgu ar yr awyr ac ar-lein. Rydym yn rhagweithiol wrth geisio cefnogi defnydd o'n cynnwys yn y system addysg.

**Rydym ni wedi sicrhau bod mwy na 100 awr o raglenni ar gael i fyfyrwyr a darlithwyr a gefnogir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; rydym wedi creu llyfrau dysgu cynnar ac yn cynnal trafodaethau â Hwb, sef y porth dysgu digidol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.**

Mae ein gweithgarwch hyd yma wedi bod yn dameidiog. Yn y dyfodol, ein nod yw defnyddio dull mwy cyfannol a bwriadol.

Ystyriwn fod S4C yn bartner dysgu gydol oes i bob siaradwr Cymraeg newydd a phawb sydd eisoes yn siarad yr iaith.

Ein nod fydd:

- annog a chefnogi trosglwyddiad iaith e.e. trwy Cyw, sef ein gwasanaeth cyn oed ysgol, a Dal Ati, sef ein cynnig ar gyfer siaradwyr Cymraeg newydd;
- cefnogi'r system addysg a'r cwricwlwm trwy gomisiynu dramâu neu gyfresi ffeithiol sy'n adlewyrchu themâu yn y cwricwlwm;
- sicrhau bod ystod ehangach o adnoddau cynnwys ar gyfer pob grŵp oedran ar gael yn eang ac yn rhwydd ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Bydd hyn yn ychwanegu at y gwaith partneriaeth sydd eisoes wedi dechrau gyda'r Coleg Cymraeg yn ogystal â gweithio gydag addysgwyr i sicrhau bod materion sy'n effeithio ar bobl ifanc heddiw – o seiberfwlio i born dial – yn cael eu hadlewyrchu yn rhywfaint o'r cynnwys sy'n cael ei greu ar gyfer y gynulleidfa hon; ac
- cyfrannu'n weithredol at hybu sgiliau cyfryngau a digidol, gan gynnwys disgyblaethau y mae'r sector cynhyrchu yng Nghymru yn dibynnu arnynt.

[20] Beaufort Research, Gwasanaeth Olrhain Delwedd S4C, 2015/16

**Sicrhau bod ein cynnwys dysgu ar gael ar-lein**

Rydym yn gwybod bod ein cynnwys presennol yn werthfawr i addysgwyr a myfyrwyr. Rydym yn cael ceisiadau rheolaidd am ddeunyddiau sy'n ymdrin â hanes a daearyddiaeth Cymru neu, er enghraifft, dramâu Shakespeare a gynhyrchwyd yn yr iaith Gymraeg. Ein nod yw sicrhau bod ein holl gynnwys addysgol gorau ar gael ar un llwyfan ar-lein cyfoethog a deinamig.

Yn yr un modd â'n cynlluniau cynnwys prif ffrwd, yr uchelgais yw sicrhau bod y cynnwys addysgol hwn ar gael yn y fformat iawn – boed hynny'n ffurf-hir neu'n ffurf-fer – ei fod yn rhwydd chwilio amdano a'i fod ar gael mor hwylus â phosibl ar draws dyfeisiau amrywiol.

**Rydym ni eisiau bod yn ffynhonnell ddibynadwy, berthnasol a rhwydd-ei-defnyddio o gynnwys cyfryngau sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi'r profiad dysgu.**

**Dod yn bartner dysgu gydol oes**

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, mae angen i ni ymsefydlu dysgu gydol oes yn ddyfnach yn ein busnes a chanolbwyntio arno'n fwy penodol. Byddai adnoddau ychwanegol yn caniatáu i ni:

- ddidoli cynnwys archif a chyfredol fel y bo'n briodol;
- archwilio'r ffyrdd gorau i gyfleu cynnwys i fyfyrwyr ac addysgwyr;
- gweithio gyda'n timau technolegol a digidol i sicrhau bod cynnwys yn y fformat iawn a'i fod ar gael yn hwylus;
- creu mentrau cyfathrebu marchnata sy'n sicrhau bod myfyrwyr, athrawon a gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r hyn sydd gennym ni a ble i ddod o hyd iddo.

**EFFAITH ECONOMAIDD EHANGACH S4C**

Mae S4C yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr economi greadigol yng Nghymru yn ffynnu. **Mae 81% o'n cyllid yn mynd yn uniongyrchol i'r sector cynhyrchu**– ac mae nifer sylweddol o'r swyddi sy'n cael eu creu yn y sector hwnnw yn uniongyrchol gysylltiedig â'n gwariant ar gynnwys newydd.

Mae mwy na 50 o gwmnïau annibynnol yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C, yn ogystal â chadwyn gyflenwi helaeth o ficrofusnesau a gweithwyr ar eu liwt eu hunain ledled Cymru. Mae cwmnïau cynhyrchu o Gymru wedi dod yn ddylanwadol ym marchnad y Deyrnas Unedig.

Mae'r sgiliau a ddatblygwyd wrth greu rhaglenni ar gyfer S4C bellach yn sail i ddiwydiant sy'n darparu rhaglenni i rwydweithiau eraill ym Mhrydain, yn ogystal â darlledwyr dramor.

Roedd ymchwil annibynnol wedi dangos yn ystod 2014/15, **bod pob punt a fuddsoddwyd gan S4C mewn diwydiannau creadigol yng Nghymru, yn werth £2.09 i'r economi.**[21] Roedd effaith gyfunol ffilmio cyfres gyntaf Y Gwyll/Hinterland yng Ngheredigion ei hun dros £1 miliwn,[22] a **chyfanswm effaith economaidd S4C ar draws y Deyrnas Unedig yn 2014/15 oedd £170 miliwn.**[23]

Mae ein cynnwys a'n doniau yn tynnu sylw at ddoniau Cymru dramor ac yn sbarduno mewnfuddsoddi. Mae cyfres un a dau **Y Gwyll/Hinterland** (a gynhyrchwyd gan Fiction Factory) **wedi cael eu prynu gan ddarlledwyr mewn mwy na 20 o diriogaethau ar draws y byd** ac mae fformat y sioe her Fferm Ffactor a ddatblygwyd ar gyfer S4C gan Cwmni Da, wedi cael ei werthu i wledydd gan gynnwys Tsieina a Ffrainc.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf, wrth i S4C gyflwyno'r weledigaeth a amlinellir yn y ddogfen hon, bydd ein heffaith yn lledaenu y tu hwnt i'r economi greadigol i'r economi ddigidol sy'n datblygu'n gyflym - maes twf blaenoriaethol ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Trwy osod cynnwys cyfryngau digidol wrth wraidd ein strategaeth a thrwy gefnogi creu clwstwr creadigol a digidol newydd yng ngorllewin Cymru, bydd S4C yn cyfrannu at alluogi busnesau digidol i dyfu. Mae cefnogaeth i S4C yn creu mwy o swyddi yn y sector preifat ac yn helpu i ledaenu ffyniant a thwf economaidd i bob cwr o'r wlad.

Yn yr adran nesaf, amlinellwn sut rydym ni eisiau defnyddio ein his-gwmni masnachol i ategu ein huchelgeisiau gwasanaeth cyhoeddus ymhellach a chreu mwy o swyddi a sbarduno twf yn economi Cymru.

[21] Arad Research ar gyfer S4C, 2012
[22] Gwerth y Gwyll, Arad Research, 2015
[23] Arad Research ar gyfer S4C, 2015



# iv. STRATEGAETH FASNACHOL I HELPU GYRRU'R WELEDIGAETH

Mae hanes da gan S4C a'n cangen fasnachol, S4C Masnachol, o weithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid masnachol yn fyd-eang. Mae S4C Masnachol yn gwneud amrywiaeth o fuddsoddiadau o'i gyllid masnachol ei hun gyda'r nod o greu difidendau cynaliadwy i wasanaeth cyhoeddus S4C.

Er 2009, mae S4C Masnachol wedi talu difidendau gwerth bron i **£2m y flwyddyn** ar gyfartaledd i'r gronfa gwasanaeth cyhoeddus.

**Ein nod yw adeiladu ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd, a chyflawni hyd yn oed mwy o werth i'r gwasanaeth cyhoeddus. Bwriadwn gyflawni hyn drwy ymgysylltu'n llwyddiannus â'r meysydd gweithgarwch masnachol canlynol:**

**Ehangu cyrhaeddiad brandiau ar yr awyr** – Cymryd brandiau dethol ac ymchwilio i ffyrdd lle gellid cael gwerth pellach drwy brosiectau S4C Masnachol; gweld a allant fyw oddi ar yr awyr mewn lleoliad masnachol, tra'n hyrwyddo rhyngweithio wyneb-yn-wyneb a phrofiadau brand S4C o ansawdd uchel yn y gymuned. Er enghraifft:

- Rydym eisoes yn datblygu cynlluniau ar gyfer Fferm Cyw fel atyniad ymwelwyr masnachol yn seiliedig ar ein brand poblogaidd ar yr awyr ar gyfer plant iau.
- Rydym wrthi'n ystyried sut i ymgorffori brand Cyw ymhellach yng nghwricwlwm y blynyddoedd cynnar mewn ffordd sy'n cefnogi trosglwyddiad iaith, yn ogystal â chynhyrchu incwm i'w fuddsoddi'n ôl yn ein gwasanaethau.

Ar hyn o bryd, mae ITV yn mwynhau llwyddiant mawr gyda nifer o'i weithgareddau ehangu brand oddi ar yr awyr. Mae'r rhain yn cynnwys profiadau ymwelwyr *Emmerdale*, fersiynau theatr o *Saturday Night Takeaway* a thaith goginio ranbarthol gan *Gino D'Acampo – Gino's Italian Escape*.

**Gwerthu hysbysebion, nawdd a thelesiopa** – ffrwd incwm sydd wedi lleihau'n sylweddol ers Newid i Ddigidol a cholli rhaglenni C4, ond sy'n bwysig o hyd. Sky yw asiant S4C a chaiff hysbysebwyr lleol eu cymell i hysbysebu yn Gymraeg yn sgil cymhorthdal a gynigir ar gyfer costau cynhyrchu. Mae hyn yn cynyddu nifer y cwmnïau Cymreig sy'n hysbysebu ar S4C, mewn marchnad sy'n tueddu bod dan ddylanwad trwm ffactorau yn Llundain.

Ein nod yw parhau i archwilio ffyrdd o gynhyrchu mwy o incwm hysbysebu a nawdd, yn enwedig o ddarparu cynnwys ar-lein a chynnwys digidol. Byddai gwireddu'r nodau a amlinellir yn y weledigaeth hon yn gosod y sylfaen i alluogi S4C i roi cyfleoedd hysbysebu pellach ar waith sy'n bodloni ein anghenion ni ac anghenion hysbysebwyr.

**Enillion refeniw o werthiant rhaglenni rhyngwladol** - Er bod hwn yn faes lle mae S4C wedi cyflawni llwyddiant yn draddodiadol, mae'r fframwaith statudol dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu mai cynhyrchwyr yn hytrach nag S4C sy'n dal hawliau ymelwa bellach. Heddiw, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn prosiectau cyd-gynhyrchu addas. Hwn yw ein prif dempled ar gyfer ymwela yn y dyfodol ar werth masnachol rhaglenni dethol. Mae gennym berthynas barhaus gyda Sony, gyda'r bwriad o ysbrydoli cynhyrchwyr i greu fformatau i'w dosbarthu'n rhyngwladol.

Yn arwyddocaol, yn yr un modd ag unrhyw weithgareddau masnachol, nid buddsoddiad yn ein dyfodol ni'n hunain yn unig yw'r rhain; maent yn fuddsoddiad yn yr economi hefyd. Bydd creu fformatau i Sony eu dosbarthu yn cyflawni refeniw ychwanegol, gan greu cyfleoedd i'r sector cynhyrchu yng Nghymru.

**Buddsoddiadau ecwiti mewn prosiectau perthnasol** - Buddsoddi mewn cyfleoedd – busnesau neu gyfleoedd cydgynhyrchu a all helpu cyflawni ein gweledigaeth – a sicrhau enillion ariannol. Mae'r rhain yn tueddu bod yn fuddsoddiadau tymor-hwy, a bwriadwn gynnal dull portffolio ar gyfer y math hwn o fuddsoddiad. Mae enghreifftiau diweddar o'r math hwn o weithgarwch yn cynnwys:

- Mae Cyfres un a dau o Y Gwyll/ Hinterland bellach wedi'u gwerthu i dros 20 o diriogaethau o amgylch y byd, ac maent wedi'u gweld mewn 130 o diriogaethau eraill ar Netflix, gan gynhyrchu dros £2.6m mewn incwm gwerthiannau gros a rennir ar draws buddsoddwyr. Mae Cyfres tri wedi'i darlledu ar S4C erbyn hyn, a bydd yn dechrau ei thaith fyd-eang yn fuan. Mae drama teledu o ansawdd uchel o Gymru ar fin cyflawni effaith ehangach ar y llwyfan rhyngwladol.

**Cydweithio ag eraill** – datblygu partneriaethau gyda phartïon eraill â buddiant neu'r rheiny ag arbenigedd a phrofiad a all gyflawni canlyniadau i S4C.

- Datblygu partneriaethau creadigol a masnachol newydd e.e. gyda brandiau defnyddwyr, sefydliadau, lleoliadau neu atyniadau a allai gynhyrchu mathau newydd o gynnwys ar gyfer y sianel linol, ein gwefan, neu'r cyfryngau cymdeithasol.
- Ymchwilio i bartneriaethau technolegol/ cyfryngau newydd e.e. gyda darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd (ISPau)/ llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a allai alluogi mwy o berthnasoedd/ymgysylltiadau cynulleidfa newydd gydag S4C.
- Mae S4C wedi chwarae rhan bwysig yn hwyluso creu loteri cymdeithas newydd i Gymru. Mae hawliau unigryw wedi'u sicrhau i ddarlledu canlyniadau'r loteri ac archwilio cyfleoedd rhaglenni yn ymwneud â'r achosion da a fydd yn elwa ar y loteri.

**Targedau Buddsoddi Masnachol**
Wrth ystyried buddsoddiadau masnachol, disgwyliwn i'r busnes dan sylw arddangos Gwerth Presennol Net (NPV) cadarnhaol o lif arian dros dair i bum mlynedd gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 15%. Mae'r elw i S4C Masnachol yn debygol o fod drwy gyfuniad o dwf cyfalaf a difidendau, er nad oes modd rhagweld yn gywir pa bryd y bydd enillion yn cael eu cyflawni i S4C Masnachol, oherwydd yn aml ni ragwelir unrhyw werthiant am bum mlynedd neu fwy.

**Galluogi Potensial Masnachol S4C**

Gall y darpariaethau statudol presennol yn ymwneud â gallu S4C i fuddsoddi mewn gweithgareddau masnachol newydd fod yn orgymhleth ac anghymesur, gan gyfyngu ar allu S4C i gynhyrchu ein ffrydiau refeniw masnachol newydd ein hunain.

Os dymunwn ymwneud â math newydd o weithgarwch masnachol gyda'n harian masnachol ein hunain, nad yw'n cydweddu'n agos â gwasanaeth craidd S4C, mae'n rhaid i ni ofyn am gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i roi darn o ddeddfwriaeth gerbron y Senedd, ac i'r Senedd ystyried p'un a ddylid caniatáu i S4C ymgymryd â phrosiect masnachol newydd.

**Mae S4C o'r farn y gellid pennu ei bwerau masnachol er mwyn galluogi S4C i fuddsoddi a chyfranogi mewn ystod ehangach o brosiectau masnachol heb orfod gofyn am gymeradwyaeth seneddol.**

**Rhoi pwerau masnachol newydd ar waith**
Mae S4C yn cynnig bod ein pwerau masnachol yn cael eu diffinio'n ehangach, yn unol â rhai Channel 4, er enghraifft drwy orchymyn galluogi cyffredinol a allai ganiatáu i ni ddefnyddio ein cronfeydd masnachol i hwyluso nifer fwy o brosiectau masnachol yng Nghymru a cheisio cynhyrchu mwy o incwm masnachol. Gallai gorchymyn o'r fath gael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy Orchymyn Penderfyniad Negyddol.[24]

**Pwerau masnachol blaenorol S4C**
O 1996 tan 2003, roedd y darpariaethau statudol a oedd yn llywodraethu gweithgareddau masnachol S4C a Channel 4 yn weddol debyg ac yn galluogi S4C i fuddsoddi mewn ystod eang o weithgareddau masnachol er mwyn creu incwm ychwanegol a gwerth cyfalaf i S4C – a fyddai yn ei dro yn cael ei fuddsoddi'n ôl yng ngwasanaethau cyhoeddus y sianel.

Er 2003 fodd bynnag, mae pwerau a rhyddidau masnachol S4C wedi'u cwtogi'n sylweddol gan fframwaith sy'n mynnu cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd i S4C fuddsoddi mewn rhai mathau o brosiectau.[25]

Nid yw Channel 4 na BBC Worldwide dan reolaeth cyfundrefn lle mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Senedd gymeradwyo rhai mathau o fuddsoddiad a wneir gyda chronfeydd a gynhyrchir yn fasnachol.

**Mae bod yn fwy masnachol yn cadw S4C yn fwy craff, yn fwy cydnaws â'i gynulleidfa, cystadleuwyr a busnesau eraill, ac yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i ddod i wybod am gyfleoedd wrth iddynt godi, a manteisio arnynt.**

[24] Fel yr amlinellir yn a.205(3) Deddf Cyfathrebu 2003.
[25] Gallai gweithgarwch masnachol newydd a ystyrir gan S4C Masnachol fynnu Gorchymyn o bosibl o dan a.206 Deddf 2003.

## Deilliannau targed o'n gweledigaeth

Rydym yn dymuno bod yn ddarparwr cynnwys cyfryngau addas i'r dyfodol sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y lefelau uchaf i'n cynulleidfa, i'r economi ac i gymdeithas gyfan, gan arwain at:

- niferoedd gwylio gwych a lefelau uchel o werthfawrogiad ymhlith y gynulleidfa,
- darpariaeth gwasanaeth wedi'i theilwra ar y teledu a llwyfannau digidol – gyda'r hyblygrwydd i lansio ar lwyfannau newydd fel bo'r angen,
- cynnydd parhaus yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc,
- S4C yn cyflawni rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus yn rhwydd ar amrywiaeth, symudedd cymdeithasol, hygyrchedd a datganoli swyddi a buddsoddiad,
- S4C yn parhau i gefnogi'r sector cynhyrchu llewyrchus ac yn ysgogi datblygu economi ddigidol ffyniannus ymhellach yng Nghymru, ac,
- yr S4C newydd yn derbyn cynnydd cymhedrol, ond parhaus, mewn buddsoddiad er mwyn cyflawni ei gynlluniau.

# PENNOD 3:
# GWIREDDU'R WELEDIGAETH

Mae S4C wedi meddwl yn ddwys ynglŷn â'r gwasanaeth cyffrous, parhaol a chynaliadwy a garem ar gyfer ein cynulleidfa yn y dyfodol. Rydym wedi gwrando arnynt, ac wedi ymchwilio'r dewisiadau yng nghyd-destun presennol y cyfryngau a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol.

Heb newid sylweddol i'n cylch gorchwyl a buddsoddiad synhwyrol, bydd gennym wasanaeth disymud yn y tymor byr i ganolig, a bydd perthnasedd ein gwasanaeth fel y mae heddiw yn lleihau'n araf. Bydd gallu'r cyhoedd i gyrchu cynnwys Cymraeg ar lwyfannau cyfoes poblogaidd yn dirywio ymhellach a bydd statws y Gymraeg mewn cymdeithas fodern yn cael ei danseilio.

Rydym ni eisiau – ac angen – i S4C gael ei galluogi i ffynnu ac esblygu. Yn y modd hwn, bydd byd y cyfryngau ym Mhrydain yn parhau i fod yn amrywiol, yn fywiog ac yn berthnasol; bydd dyheadau pobl Cymru o ran y Gymraeg yn cael eu cefnogi a bydd cefnogaeth Llywodraethau i'r Gymraeg yn cael ei hatgyfnerthu; bydd economïau Cymru a Phrydain yn gallu elwa mwy fyth o effaith sylweddol ein gweithgareddau; byddwn yn cynhyrchu mwy o refeniw ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus – ac, yn hollbwysig, gall siaradwyr Cymraeg yn unrhyw le yn y byd gael eu hysbysu, eu haddysgu a'u difyrru gan gynnwys gwych, yn eu dewis iaith – yr iaith hynaf ym Mhrydain.

I wireddu ein gweledigaeth, mae S4C yn galw am:

1. Gylch gorchwyl newydd – i rymuso S4C i fynd i'r afael â'r heriau
2. Ffynonellau sefydlog, digonol a phriodol o gyllid – i sicrhau bod gan S4C ddigon o adnoddau i gyflawni ei chylch gorchwyl yn yr oes ddigidol
3. Trefniadau rheoleiddio, llywodraethu ac atebolrwydd priodol – sy'n addas i S4C y dyfodol

## CYLCH GORCHWYL NEWYDD

Mae cylch gorchwyl presennol S4C yn cyfeirio at *"ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o ansawdd uchel y bwriedir iddynt fod ar gael i'w derbyn yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan aelodau'r cyhoedd yng Nghymru."* [26]

Nid yw'r cylch gorchwyl hwn wedi newid llawer ers i ni ddechrau darlledu ym 1982. Pe byddai ein gwasanaeth, disgwyliadau cynulleidfaoedd, technoleg a'r byd yr ydym ni'n gweithredu ynddo wedi aros yn sefydlog yn ystod y 35 mlynedd diwethaf, ni fyddai hyn yn broblem. Ond, wrth gwrs, mae'r pethau hyn wedi newid – a hynny'n ddramatig a thu hwnt i adnabyddiaeth. Nid set deledu yng nghornel yr ystafell yw'r unig ffordd o wylio cynnwys mwyach; mae cannoedd o sianeli llinol ac ar-lein ar gael bellach, nid pedair, a gall ein cynulleidfa nid yn unig wylio beth, pryd, ble a sut y mae'n dymuno – gall hyd yn oed greu ei chynnwys ei hun i'r cyhoedd ei weld ar-lein, yn ogystal â dylanwadu'n uniongyrchol ar gynnwys darlledwyr trwy bethau fel pleidleisio trwy apiau a sylwebaeth neu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Ers dyfodiad teledu digidol, mae S4C ei hun yn cael ei gwylio a'i mwynhau ledled y Deyrnas Unedig, a thramor, lle mae hawliau'n caniatáu hynny.

[26] Deddf Cyfathrebu 2003, http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/part/3/chapter/1/crossheading/the-welsh-authority

**Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus o gymharu â Chyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus**
Mae Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau i fod yn bwysig, ond dylai darlledu gael ei ystyried yn un o nifer o ddulliau sydd ar gael i ni i gyrraedd ein nod. Rydym ni, yn yr un modd â Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill o amgylch y byd, yn gwneud mwy na darparu gwasanaeth darlledu teledu llinol, un cyfeiriad, yn unig mwyach. Wrth i wahanol fathau o gynnwys esblygu, ynghyd â'r ffyrdd y cânt eu cyrchu gan y gynulleidfa, ac wrth i ni ddatblygu ein gwasanaeth yn unol ag anghenion y gynulleidfa, **dylai S4C gael ei hailddiffinio'n ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.** Mae hyn yn adlewyrchiad mwy cyfoes o'n gwasanaeth a'r ffordd y mae Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill yn y Deyrnas Unedig eisoes yn gweithredu. Bydd yn berthnasol am ddegawdau i ddod a byddai'n caniatáu i S4C gyd-fynd ag arfer gorau Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Fel darparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, byddwn yn datblygu cryfderau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ac yn cynnal yr elfennau hynny, ar yr un pryd â chydnabod bod darlledu'n un o nifer o ddulliau modern o ddarparu cynnwys.



Mae'n amlwg bod cylch gorchwyl 'teledu yn unig', fel y'i diffinnir gan statud, yn hen ffasiwn ac yn cyfyngu ar allu S4C i gynnig cynnwys trwy ddulliau gwahanol ac arloesol i'n cynulleidfa yng Nghymru, ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Dadleuir hefyd nad yw cylch gorchwyl sy'n diffinio ein cynulleidfa fel un sydd wedi'i chyfyngu i bobl sy'n byw yng Nghymru, yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa heddiw na'r gwerth go iawn a briodolir i'r gwasanaeth.

Mae cylchoedd gorchwyl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi cael eu diweddaru yn y blynyddoedd diweddar i'w galluogi i fanteisio ar dechnolegau newydd fel y gallant wasanaethu cynulleidfaoedd ar draws pob llwyfan cyfryngau.

**Mae S4C o'r farn y dylai ei chylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus gael ei ddiweddaru i alluogi S4C i:**

**(i) ddarparu cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymraeg o ansawdd uchel;**

**(ii) ar y teledu ac ar lwyfannau digidol;**

**(iii) i'r gynulleidfa yng Nghymru, ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt.**

Gallai diwygiad i'r mathau o wasanaethau y gall S4C eu darparu, i'w galluogi i ddarparu cynnwys cyfryngau digidol perthnasol a fyddai'n ategu'r cylch gorchwyl iaith Gymraeg presennol (a ddiffinnir yn Rhan 2 Atodlen 12 Deddf 2003), gael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol trwy gyfrwng Gorchymyn Penderfyniad Negyddol.

**Gwaith Cynnar o fewn y Weledigaeth**
Cymaint yw'n hyder yn y cyfeiriad newydd hwn yr ydym wedi ei ystyried yn ddwys, rydym eisoes, lle y bu'n bosibl, wedi datblygu a threialu elfennau o'r strategaeth i wireddu ein gweledigaeth:

- Rydym eisoes wedi sefydlu pobl a phrosesau newydd.
- Rydym yn newid natur rhai o'n perthnasau presennol â chynhyrchwyr, gan annog mwy o gystadleuaeth a dod o hyd i ffyrdd creadigol o gael mathau newydd o gynnwys.
- Rydym wedi blaenoriaethu, o fewn adnoddau cyfyngedig, er mwyn sicrhau bod gan S4C bresenoldeb ar rai llwyfannau allweddol, yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnwys yn unig.
- Rydym wedi neilltuo adnoddau presennol i gynyddu ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.
- Rydym yn ymchwilio i lu o gyfleoedd buddsoddi masnachol, yn bennaf trwy ymestyn ein brandiau ein hunain.

Byddwn bob amser yn gweithio'n galed i archwilio datblygiadau newydd a chyflwyno unrhyw rai y credwn eu bod yn allweddol i'r gwasanaeth, ond mae'n hanfodol bellach bod ein cylch gorchwyl yn cael ei ddiwygio er mwyn i ni allu cyflawni'r newid sylweddol angenrheidiol o fod yn sianel linol unigol gyda chynnig digidol cyfyngedig i ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus cyflawn a fydd yn gallu bodloni anghenion ein cynulleidfaoedd yn awr ac yn y dyfodol.

# FFYNONELLAU SEFYDLOG, DIGONOL A PHRIODOL O GYLLID

**Cyllid Sefydlog a Digonol**

Mae cyllid sefydlog a digonol yn allweddol bwysig i wireddu ein gweledigaeth a sicrhau dyfodol bywiog, perthnasol a llwyddiannus i S4C ar gyfer cenedlaethau i ddod.

O dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd i ystyried faint o gyllid y mae ei angen ar S4C i'n galluogi ni i ddarparu ein gwasanaethau darlledu cyhoeddus, ac yna gwneud trefniadau i sicrhau bod y swm perthnasol hwn o arian yn cael ei ddarparu i S4C bob blwyddyn – naill ai o arian y Llywodraeth, neu drwy wneud trefniadau gyda chyrff eraill i ddarparu elfennau o'r cyllid.

Ar hyn o bryd, mae gennym incwm cytunedig o ffi'r drwydded deledu o £74.5 miliwn hyd at fis Ebrill 2022. Y cymorth grant gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn 2016/17 oedd £6.762 miliwn. Mae hyn, ynghyd â throsglwyddiadau o'n his-gwmnïau masnachol, yn dod â'n hincwm cyfan ar gyfer 2016/17 i ychydig dros £83 miliwn.

Er mwyn darparu a chynnal y lefelau newydd o wasanaeth a ddisgrifiwyd gennym, bydd angen buddsoddiad ychwanegol bob blwyddyn ar ben ein cyllideb bresennol. Bydd cyllid ychwanegol o'r fath, a fuddsoddir yn ein busnes ar yr adeg allweddol hon, yn arwain at enillion sylweddol, gan gynnwys:

- mwy o ymgysylltiad â'r Gymraeg, a fydd yn cyfrannu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg,
- gwasanaeth cyfryngau mwy amrywiol a llwyddiannus sy'n ymgysylltu mwy â chynulleidfaoedd ac yn cael ei werthfawrogi mwy,
- sector cynhyrchu sydd hyd yn oed yn fwy cystadleuol, creadigol a medrus yn ddigidol,
- cyfraniad uwch at economïau Cymru a Phrydain.

**Beth yw Cyllid Digonol?**

**(a) Darparu Cynnwys Ar Bob Llwyfan**

Ein nod yw cyflawni elfen Llwyfannau digidol "Darparu Cynnwys ar bob Llwyfan" dros gyfnod o bum mlynedd. I wneud hyn heb effeithio ar y buddsoddiad presennol mewn cynnwys, byddai angen:

•buddsoddiad blynyddol ychwanegol o £6 miliwn y flwyddyn. Bydd hyn yn galluogi S4C i ddarparu ein gwasanaeth ar deledu darlledu yn ogystal â llwyfannau digidol, buddsoddi mewn cynnwys newydd ar gyfer cynulleidfaoedd ar lwyfannau digidol ac ychwanegu cynnwys archif at y cynnig ar-lein.

**(b) Cost Creu'r Cynnwys Cywir**

Ni all fod ateb cwbl bendant fyth i'r cwestiwn "faint o gyllid sydd ei angen ar S4C i greu'r cynnwys cywir?" Gwaith y darlledwr yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl y gellir ei gyflwyno gyda'r arian sydd ar gael.

Fodd bynnag, nid yw cyllideb cynnwys bresennol S4C yn ddigonol i wireddu'r weledigaeth a amlinellir ym Mhennod 2 y ddogfen hon, ac felly mae angen cyllid ychwanegol os ydym am ei chyflawni.

Mae'r adolygiad annibynnol yn cynnig cyfle i S4C gyflwyno'r ffactorau y tybiwn eu bod yn briodol ac yn berthnasol i'r adolygwr eu hystyried wrth archwilio beth yw cyllid digonol.

Elfen allweddol i'r adolygiad ei hystyried fydd y meincnodau y mae darlledwyr eraill yn eu cynnig, ac yn enwedig sut mae'r rhain yn newid dros amser. Mae'r rhain yn rhoi syniad a yw ansawdd a chwmpas yr hyn sydd ar gael yn debygol o fodloni disgwyliadau.

Fel rydym wedi dadlau, mae ehangder a dyfnder y dewis sydd ar gael yn Saesneg erbyn hyn, o ran rhaglenni, llwyfannau a sianeli, yn syfrdanol. Yn Saesneg, mae'n bosib i wasanaethau masnachol fodloni disgwyliadau, os yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn oedi. Yn Gymraeg, nid yw hynny'n wir. S4C yw'r unig sianel deledu iaith Gymraeg o hyd.

Mae ailddarllediadau bellach yn cynrychioli 58% o'r rhaglenni a ddarlledir ar S4C – cynnydd arwyddocaol ers 2010 (54%). Y ffigurau cyfatebol yw BBC One - 23% ac ITV 1 - 28%, yn ôl adroddiad Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus 2016 Ofcom. Anogwn yr adolygwr i ystyried yr ystadegau hyn a ph'un a ydynt yn dderbyniol i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.

Ar yr un pryd, tra bod darllewyr eraill wedi gallu cynyddu eu buddsoddiad fesul awr, yn enwedig mewn cynyrchiadau mawr yn y meysydd adloniant, drama a chwaraeon , i ddarparu rhaglenni 'uchafbwynt' sy'n denu cynulleidfa fawr ac yn creu testunau siarad diwylliannol, mae S4C mewn sefyllfa lle mae'n lleihau ei chost fesul awr ar draws pob genre.

Yn ychwanegol i hyn, mae'n rhaid i gyllideb cynnwys S4C gael ei gwarchod yn y dyfodol yn erbyn pwysau chwyddiant fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2. Fe ddylai hyn, yn ein tyb ni, fod yn ystyriaeth allweddol i'r adolygiad.

Byddai cynnydd sylweddol mewn cyllid ar gyfer cynnwys newydd yn darparu gwasanaeth mwy cyfoethog, un a fyddai mewn sefyllfa well i allu bodloni disgwyliadau amrywiol siaradwyr Cymraeg heddiw. Rydym yn anelu at gyflawni hynny.

**(c) Proses Dryloyw**

Mae'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu digon o gyllid i S4C, ond nid yw'n cyfeirio at unrhyw broses y dylid ei dilyn wrth benderfynu ar y swm sy'n ofynnol. Mae'r gwendid hwn wedi golygu bod S4C yn agored i doriadau cyfnodol ac wedi caniatáu i ofnau gael eu mynegi ynglŷn â pharhad ymrwymiad y Llywodraeth i'r gwasanaeth.

Er mwyn tawelu ofnau o'r fath, a darparu sefydlogrwydd am gyfnod rhesymol, dylai fod yn flaenoriaeth i'r adolygiad argymell proses wrthrychol a thryloyw ar gyfer penderfynu ar yr hyn sy'n gyfystyr â chyllid digonol i S4C, yn seiliedig ar gylch gorchwyl newydd.

Mae digonolrwydd a sefydlogrwydd cyllid a ffynonellau cymorth yn ystyriaethau cyffredin mewn perthynas â darpariaeth Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ar draws y byd. Yn ôl yr Undeb Darlledu Ewropeaidd, er enghraifft, yr egwyddorion allweddol yw fod cyllid yn:

- **Sefydlog a Digonol.** Ffynhonnell sefydlog a rhagweladwy o gyllid sy'n galluogi ymdrin â'r cylch gorchwyl gwasanaeth cyhoeddus yn llawn yn oes y cyfryngau digidol.
- **Yn annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol.** Nid yw Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn dibynnu ar ffafr wleidyddol, gan felly gynyddu ffydd y cyhoedd ynddynt a'u rôl fel gwasanaeth gwirioneddol anhepgor.
- **Teg a Chyfiawnadwy.** Yn deg ac yn gallu cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol i'r cyhoedd a'r farchnad.
- **Tryloyw ac Atebol.** Dull cyllido agored ac eglur sy'n dal Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn atebol i'w cynulleidfa. [27]

Fel un o gonglfeini allweddol darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, mae S4C yn credu y dylai sefydlogrwydd cyllid fod yn gysylltiedig â phroses dryloyw sy'n gosod lefel y cyllid am gyfnod penodol a sylweddol, megis pump neu ddeng mlynedd. Dyma'r hyn sy'n digwydd yn draddodiadol o ran y BBC, ac oherwydd mai S4C yw'r unig ddarparwr cynnwys teledu yn y Gymraeg, dylai S4C gael lefelau tebyg o sicrwydd a sefydlogrwydd cyllid digonol.

Cydnabyddir yr egwyddor hon yn y Cytundeb Fframwaith sy'n sail i Siarter newydd y BBC ac sy'n mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol, y BBC ac S4C, yn dilyn yr Adolygiad o S4C, yn cytuno ar broses ar gyfer diffinio cyllid S4C o ffi'r drwydded am y cyfnod hyd at 2027/28.

Dylai'r broses ar gyfer diffinio anghenion cyllid cyffredinol S4C gynnwys ystyriaeth o'r ffactorau canlynol:

1. Disgwyliadau cynulleidfaoedd
2. I ba raddau y mae cynnwys Cymraeg ar gael ar lwyfannau cyfryngau
3. Costau cymharol creu cynnwys a chaffael hawliau
4. Effeithlonrwydd S4C ei hun
5. Egwyddor o berthynas gyfatebol gyda ffi'r drwydded
6. Chwyddiant a phwysau eraill ar gostau

Dylai'r egwyddorion hyn gael eu hystyried a'u trafod pryd bynnag y bydd angen adolygu cyllid S4C, gan gynnwys ar ddiwedd yr adolygiad hwn.

**Ffynonellau Priodol o Gymorth**

Dylai newid y cylch gorchwyl i fod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ehangach (gan ymgorffori ein statws Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus presennol) annog y rhai hynny sy'n ymwneud â'r adolygiad i edrych yn ehangach ar ffynonellau posibl ar gyfer y buddsoddiad ychwanegol hwn. Rydym yn awyddus i gael y cyfle i godi mwy o arian o'n gweithgareddau eu hunain, ond yn sylweddoli mai arian cyhoeddus fydd asgwrn cefn ein gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredin ar gyfer darpariaeth cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a amlinellir uchod, a thraddodiad hirsefydlog y Deyrnas Unedig o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y cyfraniad at gyllid S4C o ffi'r drwydded yn gweithio'n dda – gan gydweithio â'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC i sefydlu prosesau cadarn ac atebolrwydd priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod S4C yn parhau i gael mynediad at y ffynhonnell bwysig hon o gyllid yn effeithiol, ar yr un pryd â chynnal ein hannibyniaeth. Wrth i ffi'r drwydded gael ei sianelu trwy'r BBC, mae cynnal cysylltiad cyllido â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, trwy'r Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, wedi bod yn allweddol i annibyniaeth barhaus S4C a'n gallu i gyflawni ein cylch gorchwyl iaith Gymraeg.

Mae S4C yn parhau i gredu'n gryf bod lluosogrwydd cyllid yn parhau i fod yn fuddiol ac yn egwyddor i'w diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i unrhyw ddewisiadau cyllid yn y dyfodol hefyd gynnal statws S4C fel darparwr cynnwys annibynnol a diduedd yr ymddiriedir ynddo.

[27] Public Funding Principles for Public Service Media, yr Undeb Darlledu Ewropeaidd, Ionawr 2016

## PENNOD 4:

# ATEBOLRWYDD, LLYWODRAETHU A RHEOLEIDDIO S4C

Mae S4C wedi bod yn sefydliad annibynnol erioed, gyda chylch gorchwyl unigryw, yn ymroi i ddarparu gwasanaeth teledu o ansawdd uchel yn Gymraeg. Mae'r annibyniaeth hon wedi caniatáu i ni gystadlu a chydweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y diwydiant cynnwys, gan ein galluogi i hyrwyddo a chefnogi sector cwbl newydd o'r economi yng Nghymru a gwneud cyfraniad hollbwysig I ddiwylliant Cymru. Yng Nghymru, lle mae nifer y darparwyr cyfryngau cenedlaethol yn fach, gwnawn gyfraniad hanfodol at sicrhau amrywiaeth llais.

**AWDURDOD S4C**

Yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C, cyfeirir at y gwasanaeth fel 'Sianel Pedwar Cymru' (S4C) a chyfeirir at y corff sy'n darparu'r gwasanaeth fel 'Awdurdod S4C', neu 'yr Awdurdod', sydd, i bob pwrpas, yn gweithredu fel y Bwrdd.

**Ar hyn o bryd, mae prif gyfrifoldebau Awdurdod S4C yn cynnwys:**

- sicrhau bod S4C yn darparu gwasanaethau teledu,
- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C,
- goruchwylio, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C,
- gweithredu fel corff cyhoeddus,
- gweithredu fel rheoleiddiwr ar faterion penodol,
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon, a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

**Swyddogaeth a Hyblygrwydd**

Mae strwythurau llywodraethu a chyfrifoldebau S4C wedi datblygu ers ei lansio ym 1982 yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth, cyfrifoldebau rheoleiddio, y gwasanaethau a ddarperir a datblygiadau arfer gorau.

Ar y dechrau, roedd aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi fel cynrychiolwyr cyrff llywodraethol darlledwyr eraill a rheoleiddwyr, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r sianel newydd lwyddo. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, trosglwyddwyd llawer o gyfrifoldebau rheoleiddio i Ofcom dan ddeddfwriaeth gan olygu fod y cysyniad o Awdurdod hunanreoleiddio wedi mynd yn llai pwysig. Yn dilyn y penderfyniad y byddai cyllid i S4C yn cael ei ddarparu'n bennaf o ffi'r drwydded deledu, rhoddwyd Cytundeb Gweithredu ar waith rhwng S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn 2012/13, gydag Ymddiriedolwraig Cymru y BBC yn dod yn aelod o'r Awdurdod.

Mae'r berthynas reoleiddiol gydag Ofcom eisoes yn bodoli ac mae wedi'i sefydlu'n dda dros lawer o flynyddoedd.

**Ein perthynas â'r BBC**

Yn ystod y cyfnod 2013-2017, fe fu presenoldeb Ymddiriedolwraig Cymru y BBC fel aelod o Awdurdod S4C yn werthfawr o ran sicrhau dealltwriaeth dda rhwng S4C a'r BBC yng nghyd-destun perthynas ariannu newydd.

Cyn hir, bydd y BBC yn symud at fodel llywodraethu ac atebolrwydd ar ffurf bwrdd unedol, a bydd yn ofynnol gwneud addasiadau i'r berthynas rhwng y ddau ddarlledwr.

Mae'r BBC a ninnau'n cytuno, gan fod gwahaniaeth mawr rhwng swyddogaethau Ymddiriedolaeth y BBC - fel corff rheoleiddio, anweithredol - a rhai bwrdd unedol, na ddylai fod yna ofyniad bellach i gael cynrychiolydd y BBC ar Fwrdd/Awdurdod S4C.

Bydd yn bwysig, fodd bynnag, fod cysylltiad cadarn yn parhau rhwng S4C a'r BBC ar lefel y DU a Chymru, er mwyn sicrhau cydweithio a chydweithredu i ddarparu'r buddion gorau posibl i wylwyr.

Dylid rhoi gofynion ffurfiol ar waith ynglŷn ag amlder cyfarfodydd a gofnodir rhwng Cadeirydd S4C a Chadeirydd y BBC, a rhwng Cadeirydd S4C ac aelod Bwrdd y BBC dros Gymru, yn ogystal â darpariaethau priodol i barhau'r Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd rhwng swyddogion S4C a swyddogion BBC Cymru.

Gyda strwythurau newydd y BBC yn dod i rym yn Ebrill 2017, fe fu'n angenrheidiol cychwyn trafod trefniadau atebolrwydd newydd gyda'r BBC ar gyfer cyllid S4C o'r Drwydded Deledu o'r dyddiad hwnnw, cyn dechrau'r Adolygiad o S4C. Rydym yn rhagweld mai'r canlyniad fydd cytundeb newydd a fydd yn disodli Cytundeb Gweithredu 2013-17. Mae'r trafodaethau'n adeiladol ac yn parhau.

**Elfennau allweddol strwythur llywodraethu ac atebolrwydd priodol**

Rydym yn cydnabod y cyfle y mae'r adolygiad yn ei gynnig i edrych o'r newydd ar bob agwedd ar atebolrwydd, rheoleiddio, llywodraethu ac ariannu S4C, ac edrychwn ymlaen at gyfrannu at drafodaethau ar y materion hyn. Wrth i S4C symud o fod yn Ddarlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus i fod yn ddarparwr cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, bydd rhai elfennau craidd o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth yn parhau.

Yn benodol, bydd gofyn:

- derbyn a bod yn atebol am gyllid cyhoeddus;
- ystyried anghenion y gynulleidfa;
- cynllunio'r gwasanaeth a blaenoriaethu;
- sicrhau hawliau cyfreithiol perthnasol;
- comisiynu'r cynnwys;
- sicrhau dosbarthu'r cynnwys;
- sicrhau hyrwyddo'r cynnwys;
- adolygu'r perfformiad.

Yn y ddogfen hon, nid ydym yn bwriadu cynnig barn gorfforaethol bendant gerbron ynghylch strwythurau ar gyfer dyfodol S4C, ond yn hytrach nodi'r elfennau hynny y credwn eu bod yn hollbwysig i gefnogi ein huchelgais ar gyfer gwasanaeth S4C yn y dyfodol a'i rôl ym mywydau pobl yng Nghymru, y DU a ledled y byd.

Mae S4C yn awgrymu bod yr elfennau hyn fel a ganlyn:

- Bod S4C yn bodoli fel **sefydliad annibynnol** i ddarparu gwasanaethau teledu a'r cyfryngau yn y Gymraeg a chydweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn y diwydiant cynnwys.
- **Dylai S4C gael cylch gorchwyl diwygiedig**, a ddylai gynnwys y ddyletswydd benodol o ddarparu teledu a gwasanaethau cyfryngau Cymraeg i'r gynulleidfa ledled y DU, ac yn darparu'r gallu i ni addasu a datblygu ein gwasanaethau wrth i dechnoleg ac anghenion defnyddwyr ddatblygu.
- Bod S4C yn cael ei ariannu **drwy gyllid cyhoeddus** yn bennaf ond gall ymgymryd â **gweithgareddau masnachol** drwy is-gwmnïau na allant, fodd bynnag, ddefnyddio cyllid cyhoeddus.
- Bod S4C yn gallu arfer ei bwerau i fenthyg cyllid at ddibenion penodedig o fewn terfynau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Changhellor y Trysorlys.
- Bod y **prosesau** a ddefnyddir gan S4C i gyfrif am ei ddefnydd o gyllid cyhoeddus ac am gyflawni ei gylch gorchwyl yn briodol a chlir.
- Bod y **prosesau** ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â beth yw cyllid digonol i S4C gyflawni ei gylch gorchwyl yn briodol a chlir.
- Bod atebolrwydd i **Ofcom** ar gyfer y rhan fwyaf o faterion rheoleiddio (ac eithrio ar gyfer rhai pynciau penodol, megis canllawiau a pholisïau iaith) yn cael ei gadarnhau.
- Dylai aelodau **anweithredol**, sy'n cyflawni ystod eang o feini prawf yn ymwneud â'r cylch gorchwyl newydd, gynrychioli mwyafrif clir y corff llywodraethol neu Fwrdd.
- Dylid penodi'r aelodau anweithredol drwy broses penodiadau cyhoeddus dryloyw.
- Dylai'r Prif Weithredwr gael ei benodi gan aelodau anweithredol y Bwrdd.
- Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am sicrhau trefniadau **llywodraethu corfforaethol** priodol, o ansawdd uchel, yn unol ag arfer gorau'r DU.
- Dylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am weithredu proses briodol ar gyfer **gwerthuso ac adrodd** ar berfformiad gwasanaethau wedi'i fesur yn erbyn amcanion.



**Gair i Gloi**
Daw adolygiad annibynnol Llywodraeth y DU o S4C ar adeg dyngedfennol yn natblygiad y cyfryngau cyfoes ac yn hanes y Gymraeg. Ar hyd a lled y byd, mae ieithoedd hynafol yn diflannu wrth i ddiwylliannau ymdebygu i'w gilydd ac wrth i dechnoleg greu cymunedau diddordeb newydd.

Roedd sefydlu S4C ym 1982 yn ddigwyddiad trawsnewidiol ac, ynghyd â llwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg, dyma un o'r prif resymau pam bod y Gymraeg yn cael ei gweld yn rhyngwladol fel un o'r ieithoedd bychain sydd â'r siawns cryfaf o oroesi. Mae'n cael ei siarad, ei chlywed ac ie, ei chanu, gydag angerdd - yn y cartref, ar y stryd, yn y gweithle ac ar y maes chwarae.  Y Gymraeg yw un o ieithoedd hynaf y byd, ac mae'n rhan annatod o ddiwylliant Cymru a Phrydain.

35 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r amgylchedd y mae S4C yn gweithredu ynddo yn newid yn sylfaenol. Mae'r amser yn iawn i gyflwyno gweledigaeth y gellir ei chyflawni ar gyfer y deng mlynedd nesaf, ac i fynd i'r afael â'r ffordd orau i gyflawni gweledigaeth o'r fath.

Yn **S4C: Gwthio'r Ffiniau**, rydym wedi gwneud hynny.

Mae angen y canlynol arnom:

- cytundeb ei bod yn iawn i S4C ddeisyfu bod yn ddarparwr Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Gymraeg ac nid yn unig yn ddarlledwr;
- cydnabyddiaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu, a'r buddion all ddeillio o hynny;
- proses ar gyfer diffinio'r gofyniad ariannol.

Edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn y drafodaeth gyhoeddus rydym yn gobeithio y bydd yr adolygiad hwn, a'r weledigaeth hon ar gyfer dyfodol S4C, yn ei hysgogi.